# Y BIGWN

CYF. 31 RHIF 5 GORFFENNAF 2019 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

# DATHLIADAU



Yr aelodau'n dathlu 175 o flynyddoedd ers sefydlu'r Clwb Criced yn Ninbych (mwy ar dudalen 29)



Gwobrwyo Christine - ( tud 7)



Iona Thomas a Lilian Jones yn dathlu ennill gwobr Gwasanath Cymdeithasol Dinbych gyda'r maer, y Cyng Gaynor Tickle a Chris Ruane AS.




Y Cadeirydd, Dilwyn Jones, Ysgrifenyddes Rebecca Bolcott wedi derbyn Gwobr Gofal Mary Dei,gyda'r Maer y Cyng. Gaynor Tickle a'i gŵr y Cyng. Roy Tickle




**Buddugwyr y fflot - Ysgol Llannefydd**

Sali Mali yn dathlu ei phen -blwydd yn hanner cant, a dyma hi, gyda'i llu ffrindiau yn ein croesawu i Ffair Grŵp Mencap yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr



**BOB DIM i fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn yn y Llyfrgell erbyn HANNER DYDD, dydd Gwener, Medi 20, neu os oes modd, drwy ebost i ybigwn@hotmail.co.uk - Ar Werth Hydref 5,2019**

# Bore Goffi y Gymdeithas Gymraeg



Pob un â'i docyn raffl a phawb yn byw mewn gobaith.



Dyma'r criw gweithgar fu'n paratoi ar ein cyfer yn Llys y Coed. Gyda'r tywydd o'n plaid, roedd y croeso yn  fwy na chynnes.



Ffrindiau wedi gwirioni ar yr ardd.



Dau griw bach cytûn yn mwynhau'r haul





Christine a'i ffrind Denny wrth eu boddau'n crwydro'r ardd.



Cawsom noson ddiddorol ac addysgiadol yn ddiweddar yng Nghymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws pan gawsom gwmni Norika Vernon, Llansannan gyda 'Hanes a Thraddodiadau Siapan'. Bu Gwenda Jones yn modelu'r Kimono ar ein rhan. Dyma beth ydi steil.



Clwb Gosod Blodau - tud 5  Llun gan Eleanor Roberts



Rhai o'r gyrwyr a aeth ar daith tractorau Clwb Dyffryn Clwyd o Glwb Rygbi Dinbych,  a chodi £1800.00 at achosion da.



Bryn, trefnwr y daith



John Jones ar ei Ffurgi Bach

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones 01745 812214
russelljones9 @talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

# Gair gan y Golygydd

Croeso i Lanrwst

Erbyn hyn fe wyddom, oherwydd perygl llifogydd, fod trefnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst wedi gorfod ail-ystyried lleoliad y brifwyl, neu ran ohono beth bynnag. Yn dilyn adroddiad technegol, codwyd amheuon am addasder y safle. Felly, i sicrhau eu bod yn ymateb a chadw at amodau a gofynion y rheolau ynglyn â 'swiriant, roedd yn rhaid newid rhyw 'chydig ar y trywydd.

Yn ôl Betsan Moses, Prif Weithredwraig yr Eisteddfod, – "Roedden ni'nbenderfynol o wneud popeth posib i gadw'r 'Steddfod yn Llanrwst, ac 'rydym yn hynod falch bod ein hymrechion wedi dwyn ffrwyth. Mae trefniadau ar droed rwan i geisio cadw'r ŵyl mor agos a phosib i'r dref, cam hynod o bwysig o gofio cefnogaeth arbennig y bobl leol, a hefyd i ddangos ein ffydd yn y dref, y gymdogaeth a'r sir drwyddi draw. Mae llawer o bartneriaid dylanwadol wedi chwarae rhan bwysig i ddod o hyd i atebion i'r argyfwng, a hynny mewn byr amser. Heb eu hymroddiad a'u dycnwch hwy, byddai'r stori wedi bod yn wahanol iawn."

Dyma addasiad diweddar o'r pennill hwnnw sy'n dechrau –

Afon Conwy'n llifo'n felyn,
Mynd â dail y coed i'w chanlyn
Sef : Afon Conwy'n llifo'n fwdlyd,
daw o'i gwelu'n flin a swnllyd
i roi dŵr oer ar wythnos hyfryd
a'n gadael ni yn socian hefyd.

Dyma'n sicr yr hyn allasai fod wedi digwydd, ond, fel y gwelwyd, bu ymdrechu a chyd-dynnu i wireddu breuddwyd ac fe gaiff Afon Conwy ymddwyn fel y myn – mi fydd yna eisteddfod yn Llanrwst ym mis Awst.

Bydd y Maes wedi ei leoli tua milltir i'r de o Lanrwst ar ochr ddwyreiniol y A470 a'r maes carafannau rhwng y Maes a'r dref ar ochr orllewinol yr A470 a Maes B ar ochr Ffordd Nebo i'r de-ddwyrain o Lanrwst. Fe fydd yna dri phrif maes parcio – bydd safle traffig o'r de ar ochr orllewinol yr A470 i'r de o Lanrwst; bydd safle maes parcio traffig o'r gogledd-orllewin i'r gogledd o'r dre ar ochr ddwyreiniol yr A470; a bydd traffig o gyfeiriad Abergele (ar hyd yr A548) yn defnyddio safleoedd ar dir Ysgol Dyffryn Conwy a thir cyfagos ar Ffordd Nebo, ar ochr ddwyreiniol y dref. I bobl anabl, gyda bathodynnau glas, bydd safle parcio ar gael wrth y brif fynedfa.

Mwynhewch. Berwyn

**Golygydd Mis Gorffennaf: Erfyl Williams**



## Croeso 'ngwas i

Roedd hi'n ganol Mehefin cyn y gwelodd y creadur bach yma ola' dydd am y tro cynta' – dau fis neu fwy ar ôl gweddill y criw – y cyw melyn ola'. "Syrpreis fach neis i ni", meddai Martha mewn cynghanedd, "o gofio fod dad wedi taeru a mwydro mai gwynt oedd ar 'i fam o!!"

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd i'r rhifyn hwn o'r Bigwn, hebddoch, byddai'n anodd iawn ei gael o i'w wely.

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

Dorothy Bartley er côf am Raymond a fuasai yn 80 oed dechrau Gorffennaf £10.00

**Diolch am eich cefnogaeth**

## Y BIGWN YN BUNT

Bydd y rhifyn nesaf o'ch papur bro yn ymddangos yn gynnar ym mis Hydref.

**Ei bris yr adeg honno fydd £1 os ydych yn ei brynu yn un o'r siopau lleol.**

Mae'n ddrwg gennym am hyn, ond rhaid codi'r pris oherwydd costau cynhyrchu a'n defnydd cynyddol o liw.

Os ydych yn un o'n tanysgrifwyr, ni fydd y pris yn codi hyd y Gwanwyn nesaf.

# Y Capeli

## Capel y Fron

Bore Sul, Mai 26ain, braf iawn oedd cael cwmni y Parch Elfed ap Nefydd Roberts atom ac fe wnaeth Mrs Gaynor Prew, llywydd y mis, ddiolch iddo a hefyd estyn croeso i Eiddwen Jones oedd wedi dod â fo atom. Yr organyddes oedd Iona Edwards. Nos Sul, Mehefin 2il, yr oedd Mrs Wendy Lloyd Jones wedi trefnu cyfarfod gweddi gyda Mrs Iona Edwards, Mrs Aledwen Hughes a Mrs Jois Snelson yn cymeryd rhan ac fe wnaeth Wendy ddiolch i'r tair am baratoi gwasanaeth bendithiol iawn a hefyd i Eiri Jones oedd wrth yr organ. Bore Sul, 16eg, yr oedd yr oedfa Gymun dan ofal ein Bugail, y Parch Andras Iago, a'r organyddes oedd Iona Edwards.

## Y Capel Mawr a Seion

Gweinyddwyd y sacrament o Swper yr Arglwydd gan y Gweinidog ar fore Sul, Mai 19eg. Croesawyd ef gan Mrs Cheryl Williams, llywydd y mis, a Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ.

Hefyd yn ystod yr oedfa hon derbyniwyd Shian Hughes yn gyflawn aelod.

Bu'n cyd addoli gyda ni ers peth amser, ac yn hynod o weithgar yng ngweithgareddau'r Fro. Rydym yn falch iawn o'i chroesawu i'n plith.

Y Parch. Bernard Thomas, Trefnant, oedd y cennad ar nos Sul, Mai 26ain. Mrs Catrin Warren oedd wrth yr offeryn.

Cafwyd cwmni Miss Debbie Roberts ar fore Sul, Mehefin 9fed. Croesawyd hi gan Mrs Angharad Rhys, llywydd y mis, a Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ.

Y nos Sul ganlynol y Gweinidog a'n tywysodd drwy'r oedfa gyda Mrs Dorothy Rogers yn cyfeilio.


## Capel Brwcws

Croesawyd y Parch Bernard Thomas atom brynhawn Sul, Mai 26ain. Carolyn Thomas oedd yr organyddes. Gwasanaeth Bro yng Nghapel y Pentre a gafwyd ar y Sul cyntaf o fis Mehefin dan ofal y Parch Owain Edwards, Coleg y Bala

Catrin Jones agorodd yr Ysgol Sul, Mehefin 9ed.Miss Debbie Roberts oedd yn pregethu yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd wrth yr offeryn. Cydymdeimlwyd â Gwilym ac Edna Williams a'r teulu yn dilyn marwolaeth chwaer Edna sef Menna Parry yng Nghanada.


Yn anffodus, oherwydd y glaw dibaid, bu rhaid gohirio ein hymweliad â Phont-y-Tŵr. Aethom i'r Ceffyl Gwyn, Llandyrnog a chael pryd blasus a chyfle i gymdeithasu. Diolchodd ein llywydd, Dilys Davies, i staff y Ceffyl Gwyn a hefyd i Lis Edwards am y trefnu. Bore Sul, Mehefin 16eg, Rhian a George Cattell fu yn gyfrifol am y rhannau arweiniol yn yr Ysgol Sul. Oedfa Gymun a gawsom y prynhawn dan ofal ein gweinidog y Parch Andras Iago. Eleanor Roberts oedd wrth yr organ.

Atebion y cylchair









# Y Cymdeithasau

## Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws

Fe gawsom ein siomi oherwydd bu rhaid i'n hymweliad â Phont-y-Tŵr nos Fercher, Mehefin 12fed, gael ei ganslo oherwydd y tywydd. Yr ydym yn gobeithio gwneud trefniadau i ymweld eto ddechrau Mis Medi. Er y siom, fe gawsom swper blasus iawn a chymdeithasu yn y Ceffyl Gwyn, Llandyrnog. Diolch i Lis Edwards am yr holl waith o ail drefnu ac fe gawom noson bleserus iawn.

## Clwb Gosod Blodau

Cynhaliwyd ein cyfarfod agored yn Theatr Twm o'r Nant. Croesawodd Felicity y Maer, Y Cynghorydd Gaynor Wood Tickle a'i gŵr Roy Tickle, a'r gynulleidfa i gyd. Yna cyflwynodd ein harddangoswr, sef Mark Entwhistle o Sandbach. Ei thema oedd 'Castiau Cymdeithasol' (Social Antics).

Ei osodiad cyntaf oedd un 'Hirddydd Haf' lle'r ydych yn gweld yr haul yn codi yng Nghôr y Cewri. Roedd wedi gosod dail palmwydd, dail amryliw, sbrigiau o Degeiriannau eiddil, melyn, hyfryd, Gerberas melyn a Ffarwel Haf o wyrdd golau a'u gosod ar stand du gyda gosodiad arall uwch ei ben a lliwiau'r haul i'w gweld drwyddyn nhw.

Mynd i lan y môr oedd yr ail osodiad, a hwnnw wedi ei greu ar blât gwyn ac fe soniodd am ei blentyndod pan oedd yn chwarae ar y tywod. Roedd blodau glas a gwyn yn cynrychioli'r môr yn Ddelphiniwms, Gerberas, Tegeiriannau a Rhosod. Hardd iawn.

Coctel oedd ei drydydd un wedi ei osod ar stand o bren o siap gwydryn gwin gyda blodau Gingers trofannol oren a Gerberas oren, dail palmwydd gwyrdd, dail amryliw a phîn -afal i greu'r gampwaith.

Dylanwad taith i America a Charnifal yr Haf a chwrs mewn Blodeueg fu ysbrydoliaeth y pedwerydd gosodiad lle aed ati i greu hetiau o flodau ar fodel o ben merch a addurnwyd gyda dail palmwydd, Tegeiriannau mawr coch, Eutherems a Rhosod cochion. Roedd o'n anhygoel.

Y pumed un oedd 'Garddwest' mewn blwch pren lle defnyddiwyd Hostas, dail Bergenia. Roedd yn osodiad paralel, tebyg i wrych gyda Alliwm cochlas, Lizanthus a Thegeiriannau mewn tiwbiau tal i roi uchder iddo.

'Priodas' oedd y chweched gosodiad wedi ei osod ar gynhwysydd crwn gyda Euthermus pinc-felyn, sbrigiau o Degeiriannau gwynion a gwnaeth osodiad arall mewn powlen gyda Lizanthus a Thegeiriannau gwynion yn plygu dros ochrau'r bowlen. Yn ogystal â'r campweithiau a greodd, roedd pawb hefyd wedi mwynhau eu hunain yn gwrando arno'n adrodd ei storïau. Talwyd y diolchiadau gan Doris.

Margherita Jones

"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"



## Merched Y Wawr, Dinbych a'r Cylch

Mae'r misoedd dwytha wedi bod yn rhai diddorol iawn yng nhalendr gweithgareddau y gangen.

Nôl ym mis Ebrill, cawsom y cyfle i groesawu Rhiannon Ifan atom i roi sgwrs ar '*Gerddoriaeth mewn Iechyd a Lles'*. Soniodd fod cerddoriaeth yn rhan o'n bywydau pob dydd ni, er weithiau nad ydym yn ymwybodol o hynny.Mae cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn y cefndir mewn nifer o lefydd e.e. siopau, llefydd bwyta ayyb. Mae cerddoriaeth yn chwarae yn y cefndir mewn rhaglenni teledu, ac yn rhyfeddol, mae cerddoriaeth yn cael ei storio mewn rhan o'r ymennydd ble does na fawr ddim byd arall yno! Mae gwrando ar gerddoriaeth yn gallu gwneud petha'n haws i chi ddelio hefo nhw o ddydd i ddydd. Mae cerddoriaeth ddwys yn gallu eich codi, a cherddoriaeth y Delyn yn gallu lliniaru a thawelu tymer ddrwg, fel yn stori Saul o'r beibl.

Ond beth yw cerddoriaeth? Sain sy'n siarad, ac mae pob diwylliant yn y Byd hefo'u traddodiad cerddorol.Does dim mesur i'r lles mae cerddoriaeth yn ei roi i rhai pobl. Mae ganddom ni'r Cymry draddodiad cryf iawn o gerddoriaeth – Canu Gwerin, Cerdd Dant, corau Meibion ayyb

Dywediadau syml am gerddoriaeth:

Gall rhythm a harmoni gyrraedd mannau mewnol dirgel yr enaid. "*Mae cerddoriaeth yn golchi ein henaid o lwch bywyd pob dydd"*Pan balla geiriau, mae cerddoriaeth yn siarad.

Cafwyd noson ddiddorol a hamddenol yng nghwmni Rhiannon.

Ym mis Mai, fe wnaeth Menna Ellis groesawu Iwan Roberts atom i siarad am yr amglychedd a byd natur.Soniodd Iwan nad oedd ganddo ddim diddordeb mewn natur a'r amgylchedd tra'n yr ysgol…cicio pêl a phethau felly oedd ei hoff bleser. Ar ôl symud o Bwllglas i Rhuthun y dechreuodd ei ddiddordeb mewn adar. Prynodd deliscop am £200 a mynd ar gwrs i Blas Tan y Bwlch i astudio adar, â thra yno, cyfarfu â Twm Elias a Ted Breeze Jones a chafodd fodd i fyw yn eu cwmni. Ymunodd hefo Cymdeithas Edward Llwyd, a dod i ddysgu mwy am adar. Erbyn hyn, ei brif ddiddordeb yw blodau a bywyd gwyllt. Cawsom daith drwy'r flwyddyn drwy gyfrwng sleidiau - o flodau botanegol, a phlanhigion gwyllt y goedwig.

Ar Fai 18fed, aeth tîm dewis dau ddwrn y gangen i gystadlu yn yr Ŵyl Genedlaethol ym Machynlleth. Mae'r dair

oedd yn y tîm yn credu bod ganddynt y ddawn i dwyllo Cymru gyfan rŵan gan eu bod wedi dod yn gyntaf trwy Gymru…da iawn chi! Hefyd, bu Magi yn llwyddiannus iawn yn dod yn ail yng nghystadleuaeth sgwennu stori yn adran y dysgwyr.



Mae'r aelodau hefyd wedi bod yn ymwneud hefo prosiect ein Llywydd Cenedlaethol o gael gwared o'r sbwriel sydd yn cael ei daflu o gwmpas ein ffyrdd a llefydd agored.Gweler Ann, Nerys ac Elizabeth allan yn casglu sbwriel yn ardal Brwcws.

Ar nos Fercher, Mehefin 5ed, buom ar ein taith flynyddol i ddiweddu'r tymor. Taith ddirgel oedd wedi ei threfnu ar ein cyfer eleni, a phob un ohonom yn meddwl i ble oeddem am fynd…teithio dros fryniau Hiraethog, lawr i Bentrefoelas, troi am Betws y Coed, yna troi lawr am Ddolwyddelan… neb a fawr o syniad i ble roeddem yn mynd…rhai yn meddwl mynd lawr i Llechwedd…ond na – cyrhaeddom ein cyrchfan, sef Cwmni Seren Cyf ym Mlaenau Ffestiniog. Cwmni a sefydlwyd nôl ym 1996 i gynnig gwaith i bobl ag anghenion dysgu. Mae'r cwmni wedi tyfu o nerth i nerth ac yn derbyn ac yn gwerthu dodrefn ail-law, ychydig o ddodrefn newydd, dillad o safon ac yn creu artefactau o bethau sy'n cael eu hailgylchu.

Mae ganddynt hefyd westy yn Llan Ffestiniog o'r enw Seren ac yno maent yn cynnig prydau trwy'r dydd, tê prynhawn a phrydau nos yn ogystal â gwely a brecwast. Cawsom bryd blasus yno cyn troi am adref wedi cael noson ddiddorol iawn.

Mae'r pwyllgor newydd, sef Llywydd: Angharad Rhys, Ysgrifennydd: Cheryl Williams a'r Trysorydd: Mari Roberts, ac aelodau eraill wedi cyfarfod i ddechrau llunio'r rhaglen ar gyfer y tymor nesa fydd yn cychwyn ar **Medi 4ydd am 7.30yh yn Festri Capel y Fron**. Bydd croeso i unrhyw aelod newydd, dewch fel criw o ffrindiau i ymuno, a chroeso hefyd i unrhyw ddysgwraig.

**RHYBUDD**

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn

## Urdd Gobaith Cymru

Urdd Gobaith Cymru yw'r corff gwirfoddol cenedlaethol cyntaf i dderbyn Marc Ansawdd Arian ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

**M**arc ansawdd a gydnabyddir yn genedlaethol yw'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Mae'r Lefel Arian yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cydnabod ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth; wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion pobl ifanc; yn cael effaith ar eu canlyniadau; yn cael ei gyflwyno gan weithlu sydd wedi cymhwyso'n briodol; ac yn cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.

Meddai Siân Rogers, Cyfarwyddwr Gwaith Maes ac Ieuenctid y Gogledd Urdd Gobaith Cymru,

"Rydym yn hynod o falch o gyrraedd safon Arian y Marc Ansawdd. Ers i ni dderbyn y safon Efydd yn 2017, rydym wedi gweithio er mwyn datblygu ac ehangu'r ddarpariaeth i'n pobl ifanc.

"Yr Urdd yw'r unig gorff yng Nghymru sy'n cynnig darpariaeth gwaith Ieuenctid cyfrwng Cymraeg cyson ar draws Cymru ac rydym yn derbyn galwadau oddi wrth ein haelodau i gynyddu'r ddarpariaeth honno. Gyda lansiad diweddar y strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru edrychwn ymlaen at gydweithio gyda'r Bwrdd Interim Gwaith Ieuenctid a Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth Gwaith Ieuenctid cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o Gymru."

Yn ôl adroddiad yr asesiad, mae'r Urdd yn 'buddsoddi'n sylweddol yn natblygiad y gweithlu, ac mae hyn yn enghraifft o arfer da, yn enwedig ymroddiad y sefydliad tuag at y cynllun prentisiaethau.'

Nodwyd hefyd bod yr Urdd yn cynnig amrywiaeth o raglenni ym maes Chwaraeon, y Celfyddydau, Gweithgareddau Preswyl, Llais Ieuenctid ac arweinyddiaeth drwy'r cyfleoedd niferus i ymgymryd â gwaith gwirfoddol.

Yn ôl yr adroddiad, 'Mae cyfleoedd i bobl ifanc gyfranogi yn eu cymuned leol yn bodoli ledled y wlad a chânt eu teilwra yn unol ag anghenion lleol. Roedd yr enghreifftiau da o hyn a welwyd yn cynnwys Fforwm Ieuenctid yn codi arian at grwpiau lleol trwy godi arian a gwella ymwybyddiaeth o ddigartrefedd a hawliau pobl LGBT. Ar y lefel genedlaethol, mae Bwrdd Syr IfanC wedi ymgyrchu ynghylch Iechyd Meddwl a lleihau gwastraff plastig.'



## FFAIR GRŴP MENCAP DINBYCH A RHUTHUN



Y stondin gacennau yn tynnu dŵr o'r dannedd.




Y stondin raffl a llond lle o wobrau a hen ddisgwyl am y tynnu o'r het.



Ffair Grŵp Mencap yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr

**Chris Hughes -** Mae'n wir deud i fod o'n sioc anferth pan ges i'r wybodaeth mod i wedi derbyn yr anrhydedd. Ond mi rydw i'n falch iawn o'i dderbyn os fydd hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r her mae pobl efo anableddau dysgu ac anghenion dwys yn wynebu yn eu bywydau bob dydd.

Mi rydw i wedi gweithio yn rhoi gwasanaeth ffisiotherapi i bobl efo anableddau dysgu ac anghenion dwys ers 1982, yn gyntaf yn Stoke-on-Trent ac wedyn yn Nhîm Anabledd Dysgu yn Wrecsam.

Erbyn hyn dwi yn gweithio un diwrnod yr wythnos yn Ynys Môn a Gwynedd ac yn mwynhau'r cyfle i weithio yn y Gymraeg.

**Y Teulu Lyall**

Llongyfarchiadau gwresog iawn i Gerallt a'i wraig Siwan ar enedigaeth eu mab bach, Deio Edward ac i Stan ac Ann ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf, a modryb Catrin wrth gwrs, mae hithau wedi gwirioni'n bot. Dipyn o brofiad – gwyn eich byd chi.

Plaid Cymru | Party of Wales

Llyr Gruffydd AC

Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:



Llyr Gruffydd AC
Canolfan Fusnes Birch House
Hen Lôn Parcwr
Rhuthun
LL15 1HN
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

Yn gweithio dros y gogledd

@LlyrGruffydd

www.llyrgruffydd.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Bidog Y Glyn, Ffordd Eglwys Wen



Yn Nodiadau Archaeolegol Rhys Mwyn yng ngylchgrawn Llafar Gwlad, Mis Mai, penawd un o'i golofnau ydi 'Bidog Bethesda'. A dyma ichi yr hyn a ddywed.

"Un o'r gwrthrychau mwyaf diddorol ddaeth i'r fei yn ddiweddar oedd bidog wedi ei ganfod ym Methesda. Ar ôl ymholi ymhellach, deallais mai ar domen lechi neu domen sbwriel y canfuwyd y bidog, ac o ganlyniad, roeddwn yn gwybod yn iawn y byddai'n anodd iawn canfod stori'r bidog – wedi ei daflu ar y domen, ond pryd a chan bwy, doedd dim gwybodaeth ar gael.

Edrychwyd ar y bidog gan Roland Flook o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd a pharatowyd adroddiad (PAS G1579). Ymddengys mai bidog Dwrcaidd oddeutu 1887 yw'r gwrthrych ar gyfer reiffl Mauser.

Un cysylltiad posib â Bethesda yw bod nifer o filwyr Stâd/Chwarel y Penrhyn wedi bod yn ymladd yn Gallipoli, ac yn aml roedd y milwyr yn dod ag arfau neu wrthrychau adre hefo nhw fel swfenïrs. Fe all hyn esbonio sut fod y bidog wedi cyrraedd Bethesda, ond heb gysylltiad â theulu lleol mae'r wybodaeth yma ar goll. Does dim modd rhoi tarddiad i'r gwrthrych – felly, er mor ddiddorol yw, does fawr o werth iddo go iawn."

Beth sy â wnelo'r Glyn â hyn meddech chi? Wel, tua chanol 2006, roedd Iori, y mab yng nghyfraith 'cw, adeiladwr wrth ei waith, wrthi'n gwneud cynlluniau ar gyfer codi tŷ ar ddarn o dir y tu ôl i'w cartref. I gyrraedd y safle roedd yn rhaid wrth fynedfa arall, ac i wneud hynny,y cam cyntaf oedd bylchu y wal ffin. A dyna wnaed. Symudwyd tunelli o gerrig a thyllu i sylfeini'r hen wal, ac yno y darganfuwyd y bidog. Er i mi wneud sawl ymholiad, fum i fawr callach, ond mae'r hanesyn difyr yma gan Rhys wedi ailgynnai'r awydd i fynd ar drywydd pethau eto. Mae llun bidog Bethesda a bidog Y Glyn yn hynod o debyg. Felly 'sgwn i oes 'na rhyw fath o gysylltiad rhwng y ddau. Byddai'n ddifyr iawn cael gwybod.


**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 818849**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# Ymweliad Clwb Cymraeg Preston

Mawr oedd y cynnwrf a'r disgwyliadau wrth i griw bach o ddysgwyr Clwb Cymraeg Preston ddisgyn ar Ddinbych. Ni chawson ein siomi! Treulion ddiwrnod difyr dros ben, yn llawn hwyl a mwynhad yng nhghwmni Nerys Ann, Ruth, staff Cae Dai, Annie yn Y Siop Siocled a Hefyn yn Y Guildhall. Diolch o waelod calon i Nerys Ann am ei gwaith caled a brwdfrydig yn trefnu'r holl weithgareddau ar ein cyfer. I Ruth am ei hamynedd a'i sgwrs hynod ddiddorol, ac i bawb yn Ninbych am eu croeso cynnes. Roedd y dysgwyr – a'r Cymry Cymraeg – wrth eu bodd.
Gweler isod ymateb rhai o'r dysgwyr.
Anne Spooner, Cadeirydd Clwb Cymraeg Preston
Gwefan: www.welshclubpreston.org
Ebost: clwbsiarad@gmail.com

**Annwyl Nerys,**
Am ddiwrnod da iawn gawson ni!
Wnaethon ni fwynhau'r daith i Gae Dai a'r pice ar y maen, te a'r cwis.
Roedd y cinio yn Siop Siocled yn flasus a'r pris yn rhesymol.
Ar ôl cinio aethon ni am daith gerdded o gwmpas y dre gyda'n arweinyddes, Ruth. Wnaethon ni ddysgu llawer o bethau diddorol am Ddinbych. Ein hoff ran o'r daith oedd y cerdded ar y waliau, sydd fel arfer ar glo.
Wedyn aethon ni i Siop Clwyd i edrych ar y llyfrau Cymraeg.
Roedd cinio'r nos yn dda iawn.
Roedd pawb yn gyfeillgar a chynorthwyol.
Diolch ym fawr iawn am drefnu'r dydd. Gaethon ni amser bendegedig!
Deborah a Steve.

**Ein Diwrnod Allan i Ddinbych**
Mi es i i'r amgueddfa anghywir. Roedd hi'n ddistaw iawn! Hogyn twp! Mi wnes i ofyn yn y castell a wedyn darganfod Cae Dai. Roeddwn i'n adnabod llawer o bobl yna!
Wedyn mi aethon ni i'r caffi i ginio. Mi wnes i gael cawl a bara efo paned o de. Roedd yn flasus! Nesa mi aethon ni i gerdded o gwmpas y waliau efo tywysydd. Roedd hi'n ddiddorol iawn. Hefyd mi es i i'r castell i brynu llyfr ynglŷn â Dinbych. Mi aethon ni i gael pryd o fwyd yn y dafarn. Wedyn mi wnes i yrru nôl i fy mwthyn yn ymyl Llangollen. Mi oeddwn i wedi blino ond roedd yn ddiwrnod allan bendigedig efo pobl eraill.
Duncan

**Ein Trip i Ddinbych**
Rhoddodd ein hathrawes, Anne, lifft i dri o ddysgwyr Cymraeg i Ddinbych. Mi wnaethon ni gyrraedd Amgueddfa 50au, "Cae Dai". Roedd yr Amgueddfa'n ddiddorol iawn. Croesawodd Nerys ni gyda bara brith, cacennau cri a choffi.
Aeth Ruth, y gwirfoddolwr, â ni ar daith gerdded drwy'r dre. Wnaeth Ruth agor y giat i'r waliau efo allwedd fawr. Mi wnaethon ni weld llawer o olygfeydd prydferth a gerddi cudd. Gwelson goeden cnau Ffrengig am y tro cyntaf.
Cefais frechdan "Coronation chicken", salad a chreision i ginio. Ar ôl cinio, aethon ni am dro i ganol y dref. Aethon ni i'r siop lyfrau ac i'r Swyddfa Bost. Wnes i ddim prynu dim byd.
Wnaethon ni gyfarfod â Barbara, ffrind Nerys – person hyfryd. Cefais lasagne llysiau i de.
Roeddwn yn hapus iawn i ddweud "diolch" i Nerys ar ran Clwb Cymraeg Preston. Mwynheuais y diwrnod cyfan gyda fy ffrindiau. Roedd yn arbennig.
Charlotte

**Be' ydy'r peth gorau am Ddinbych?**
Mae Dinbych yn drysor, trysor cudd. Mi wnaethon ni ei ddarganfod. Mi aethon ni gyda Ruth i'r castell. Mi wnaeth hi agor y giat efo goriad mawr. Mi wnaethon ni gerdded ar hyd y waliau. Mi wnes i weld coeden cnau Ffrengig am y tro cyntaf ger y wal. Roedd y golygfeydd yn brydferth. Dyma'r peth gorau am Ddinbych.
Yn y bore, yn gyntaf mi aethon ni i'r amgueddfa 1950au, 'Cae Dai', yng nghefn gwlad. Trip yn ôl mewn amser. Mi wnaethon ni gyfarfod â Nerys yma. Mi wnaeth hi baratoi cwis am yr amgueddfa. Hefyd, mi wnaeth hi roi diod poeth hi ni, bara brith efo menyn neu heb fenyn a chacennau cri. Roedd yr amgueddfa yn ddiddorol iawn.Dyma'r peth gorau am Ddinbych.
Mi gaethon ni ginio yn Siop Siocled, am hanner dydd, efo'n holl ffrindiau. Mi ges i frechdan 'Coronation Chicken' a salad a chreision. Roedd y bwyd yn dda. Dyma'r peth gorau am Ddinbych.
Mi aethon ni am dro yng nghanol y dref. Pwy wnaethon ni gyfarfod yn ymyl y llyfrgell? Mr. Stanley wrth gwrs!Dyma'r peth gorau am Ddinbych.
Mi aethon ni hefyd i fy hoff siop, y Siop lyfrau. Mi wnes i brynu llyfr stori plant a'r cylchgrawn 'Golwg'. Mi aethon ni nesa i'r swyddfa bost. Mi wnes i brynu cerdyn pen-blwydd Cymraeg i fy ffrind.Dyma'r peth gorau am Ddinbych.
Roedden ni wedi blino erbyn 5.30yp felly mi aethon ni i'r dafarn, 'The Guildhall' i ymlacio, i gael diod ac i gael pryd o fwyd. Roedd y bwyd yn dda iawn - ffagots Cymreig efo thatws stwnsh a phys. Dim ond fi gafodd hwn ond roedd yn flasus iawn.Dyma'r peth gorau am Ddinbych.
Dw i ddim yn gwybod pa un oedd y peth gorau felly dewiswch chi, os gwelwch yn dda!
A dweud y gwir, roedd y diwrnod cyfan yn dda. Mi wnaethon ni ddysgu llawer ac mi gaethon ni hwyl. Nerys, Ruth a Barbara, ffrind saesneg Nerys, mi wnaethon nhw wneud y diwrnod yn arbennig.
Herma



# Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru

Eto eleni bydd yr Ŵyl yn cynnwys cyngherddau dros dri phenwythnos, gan ddechrau ar Ddydd Sadwrn, 14eg o Fedi. Bryd hynny ceir cyngerdd gyda Chôr Only Boys Aloud, y pianydd Luke Jones sy'n enedigol o Wrecsam, grŵp Doniau Cudd o Ganolfan Gerdd William Mathias, ac enillydd gwobr unawd Llais y Dyfodol, Eisteddfod Llangollen 2019. Bydd yr Ŵyl yn parhau tan ddydd Sadwrn, Medi 28ain.

Ein thema ar gyfer Gŵyl 2019 a gynhelir yn y Gadeirlan yn Llanelwy, yw 'Y Fam Ddaear', a cheir dylanwadau mewn sawl ffurf yn ein rhaglenni, o waith corawl i gerddoriaeth gerddorfaol. Mae pob cyfansoddwr sydd wedi cerdded y ddaear wedi derbyn ysbrydoliaeth gan fyd natur. Yn wir, tystiodd Beethoven fod yn well ganddo gwmnïaeth coeden na dyn. Cawn glywed ei 'Pastoral Symphony'. Byddwn yn talu teyrnged i William Mathias, sylfaenydd yr Ŵyl, fyddai wedi bod yn 85 eleni. Cawn edrych yn ôl ar ei waith, ei fywyd, a'r gerddoriaeth oedd ef ei hun yn hoff ohono - Mozart a Gershwin. Bydd ei ferch Rhiannon Mathias, ei gyn ddisgybl yr Athro Paul Mealor, y pianydd Iwan Llewelyn-Jones a'r delynores Elinor Bennett yn ein tywys drwy'r rhaglen.

Cawn glywed gwaith hwyliog a digri newydd sbon 'Hanes creu popeth yn y byd!' gan Robat Arwyn a'r geiriau gan Mererid Hopwood fydd yn cael ei berfformio gan Gôr Rhuthun, Côr Ysgol Pen Barras, Côr Cytgan Clwyd ac Acedemi Indigo.

Ymhlith y sêr fydd yn ymddangos yn yr Ŵyl ym mis Medi mae cantorion o Opera Cenedlaethol Cymru, y tenor Rhodri Prys Jones, soprano Samantha Hay, a'r bariton Roland Wood. Byddant yn perfformio dyfyniadau o'r 'Greadigaeth' gan Haydn a'r gwaith cyffrous 'Carmina Burana' Carl Orff gyda chôr cymunedol yr Ŵyl. Hefyd mi fydd y grŵp lleisiol Gesualdo Six, ein cerddorfa breswyl NEW Sinfonia a'r gantores Gymreig Rebecca Afonwy Jones yn canu'r 'Sea pictures ' Elgar. Yn ogystal, cawn noson werinol yng nghwmni Awen Celtica - Sian James, Sioned Webb ac Arfon Gwilym a'r grŵp Vrï sef Patrick Rimes, Jordan Price Williams ac Aneirin Jones. Cawn gwmni Ensemble Cymru am fore o gerddoriaeth siambr hyfryd. Fe fydd hi'n fraint hefyd i ni estyn gwahoddiad a chroeso i'r pianydd o Siapan Yu Kosuge i gyflwyno rhaglen 'Water and Wind' gan gynnwys Debussy, Ravel, Liszt, Mendelssohn.

Eto eleni cawn gyflwyno nifer o weithdai addysg a chyngherddau plant ar gyfer nifer o ysgolion. Bydd Camau Cerdd i'r plant ifanc mewn cydweithrediad gyda Chanolfan Gerdd William Mathias, a thaith Gymunedol eang yn yr ardal gyda cherddorion Live Music Now.


Mae'r Ŵyl yn ffodus iawn o gael cefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Thŷ Cerdd a nifer o fusnesau ac unigolion. Mawr yw ein gwerthfawrogiad am bob cymorth.

Mae posib archebu tocynnau o'r Swyddfa Docynnau yn Theatr Clwyd: 01352 701521 / 01352 344101. Mae tocynnau hefyd ar gael o siop Cathedral Frames, 28 Stryd Fawr, Llanelwy, LL17 0RD - 01745 582929 - Ar agor dydd Mawrth - dydd Gwener 10.00 - 16.30.

Neu ceir llawer iawn mwy o wybodaeth ar wefan yr Ŵyl ac yn wir gallwch archebu ar lein 24/7 - **www.nwimf.com**



Robart Arwyn

MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw**
**Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa**
**Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Canolfan Gymunedol Awelon**
**Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar
**01824 703833 (Rhuthun) neu**
**01745 818263 (Dinbych)**

**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

# Holi a Stilio yng nghwmni Nia Angharad



**Cyflwyniad**
Nia Angharad dwi, dwi'n 35 oed a dwi'n byw yn Ninbych gyda Sam fy ngŵr ac Elen Wyn ein merch fach a gafodd ei geni ym mis Chwefror eleni.

**Beth ydi dy atgof cyntaf di?**
Dwi'n cofio mynd i ysgol feithrin yn y Waun, a chael codwm a brifo fy nghoes. Nes i grio yn y gobaith y baswn i'n cael mynd adref ond gwrthododd yr athrawes, a bu'n rhaid i mi aros!
Dwi hefyd yn cofio dod dros Fwlch yr Oernant am Ddinbych pan symudon ni yma o'r Waun ym 1986.

**Pa dri lle sy'n bwysig i ti?**
Adref (tŷ Mam a Dad), mae'n llawn atgofion melys o dyfu i fyny, paratoi ar gyfer diwrnod ein priodas, rhannu'r newyddion gyda fy rhieni bod Elen ar y ffordd, ac mae'n llawn chwerthin bob amser, a mwy rŵan bod Elen Wyn wedi cyrraedd!
Tŷ ni. Rydyn ni newydd brynu tŷ ar stâd Colomendy, dyma ein cartref cyntaf gyda'n gilydd fel teulu o dri, ac rydyn ni'n edrych mlaen at greu llawer o atgofion hapus yma. (Mae'r dreif y tu allan i'r tŷ yn bwysig iawn i ni hefyd, gan nad oedd gennym le parcio y tu allan i'n tŷ ar Lôn y Post, rhywbeth oedd yn peri niwsans mawr ar brydiau!)
Sir Drefaldwyn. O fan hyn mae fy rhieni yn dod, ac mae gen i lawer o atgofion o ymweld â theulu pan oeddwn yn iau. Yma hefyd cefais fy swydd gyfieithu gyntaf gyda chwmni Meta yn Llanfyllin. Roedd yn dipyn o siwrnai o Ddinbych ond dwi ddim yn meddwl faswn i lle rydw i rŵan gyda fy ngyrfa heb yr help a'r gefnogaeth gefais i yn y swydd honno i basio arholiadau'r Gymdeithas Cyfieithwyr ac i gael sylfaen dda fel cyfieithydd.

**Beth sydd wedi achosi'r embaras mwya i ti?**
Fedra i ddim meddwl am un peth penodol, ond nes i droi fyny i apwyntiad gyda'r Ymwelydd Iechyd ddiwrnod yn rhy gynnar fis diwethaf. Roeddwn i wedi brysio i gael Elen yn barod, i mewn i'r car ac i'r Inffyrmari, cyn sylweddoli mai'r diwrnod canlynol oedd yr apwyntiad. Roedd yn embaras mawr gorfod troi at Sam a dweud nad oedd angen brysio a chodi mor fore ar ei ddiwrnod i ffwrdd!

**Lle ydi'r lle mwya' diddorol rwyt ti wedi bod?**
Mae gan Sam diddordeb mawr yn y Rhyfel Byd Cyntaf, felly os awn ni ar wyliau, mae cysylltiad gyda'r rhyfel fel arfer wrth i ni benderfynu lle i fynd. Rydyn ni wedi bod i Wlad Belg, Ffrainc a Malta, a rhaid cyfaddef fy mod i wedi dysgu llawer iawn ganddo wrth fynd ar wyliau i'r lleoedd hyn, a gweld mynwentydd a safleoedd brwydrau ac ati. Mae ei wybodaeth am hanes y fyddin, awyrennau rhyfel ac ati yn eang iawn. Lwcus nad ydw i'n un am wyliau i orweddian ar draeth neu wrth bwll nofio!

**Beth sy'n dân ar dy groen di?**
Ers i mi gael Elen, dwi wedi sylweddoli pa mor anghyfleus gall pethau fod wrth i bobl barcio eu ceir ar balmant heb adael digon o le i rywun basio gyda phram, a gorfod mynd i'r ffordd i fynd heibio! Hefyd mae diffyg cwrteisi (dweud plis a diolch!) yn fy nghythruddo.

**Oes na un peth arbennig yr hoffet ei wneud yn ystod y blynyddoedd nesa ma?**
Faswn i'n hoffi mynd i Ŵyl y Gelli gan fy mod wrth fy modd gyda llyfrau!

**Sut fyddi di'n treulio dy oriau hamdden?**
Dwi wrth fy modd gyda llyfrau, a chymdeithasu gyda ffrindiau a theulu. Mae'n siŵr y dylwn i sôn bod rygbi yn chwarae rhan fawr yn ein bywydau ni hefyd! Dwi'n trio mynd i wylio gemau tîm cyntaf Clwb Rygbi Dinbych gan mai Sam yw'r rheolwr.

**Pa gyngor fyddet ti'n ei roi i'n Prif Weinidog ni yn Nghaerdydd na?**
Dwi ddim yn wleidydd ond faswn i'n ei gynghori i gau botwm top ei grys.

**Beth sy'n gwneud i ti chwerthin?**
Mae gen i griw da o ffrindiau a dwi'n gwybod y bydd na lond bol o chwerthin bob tro da ni'n mynd allan. Mae rhaglen 'Friends' hefyd yn gwneud i mi chwerthin bob amser, dim ots fy mod wedi gwylio pob pennod ganwaith!

**Pa un ydi dy hoff raglen deledu?**
Friends yw'r hen ffefryn, ond dwi'n hoff iawn o wylio'r Apprentice hefyd.

**Beth sy'n rhoi'r boddhad mwya' i ti?**
Gweld Elen yn gwenu a threulio amser gyda theulu a ffrindiau.

**Mewn munud gwan, sut datŵ y byddet ti'n ymfalchio ynddo fo?**
Mae gen i ofn nodwyddau felly mae'n anhebygol iawn y byddwn i'n cael tatŵ, ond mae'n debyg mai map o Gymru neu'r ddraig goch fyddai'r dewis pe bai rhaid!

**Beth ydi'r tri pheth gorau sy' wedi digwydd i ti erioed?**
Cael swydd cyfieithu gyda Chyngor Conwy, dwi wedi gwneud ffrindiau oes yno.
Sam (peidiwch â deud wrtho).
Elen Wyn.

**Beth fyddai'r un peth yr hoffet ei gyflawni i helpu pobl llai ffodus na ni?**
Dileu digartrefedd, dwi'n meddwl dylai pawb fod â tho uwch eu pennau a dwi'n cyfri fy hun yn lwcus iawn bod gen i gartref clyd.


TE YN Y GRUG


**Tŷ Te a Delicatessen**
**Coronation Buildings, Lôn Gefn, Dinbych, Ll16 3TE**
**deli@teynygrug.co.uk**
**01745 816576**

## Atebion Mehefin 2019

**Ar Draws :**
9. Awstralia
10. Dameg
11. Morse
12. Ymprydiwr
13. Amsugno
14. Amalgam
17. Nobel
19. YSN
20. Sgrym
21. Gwladfa
22. Cinetig
24. Torheulwr
26. Largo
28. Cinio
29. Dromedari

**I Lawr :**
1. Balm
2. Astrus
3. Croengaled
4. Clwyfo
5. Camp lawn
6. Adwy
7. Ymbilgar
8. Agor
13. Annog
15. Absenoldeb
16. Mamog
18. Balerina
19. Ymaelodi
22. Carrog
23. Tarian
24. Twca
25. Ebol
27. Orig


## CROESAIR GORFFENNAF 2019



**Ar Draws :**
1. Darfu hwn, megis seren wîb
4. Cynhwysydd i gario'ch siopa?
9. Baich dyn ...., i osgoi ail siwrnai
10. Un sy'n astudio'r meddwl dynol
11. Tywydd nad yw'n glir
12. Gwisgo colur
13. Yma
15. ee hebogiaid neu frain
16. Cri aderyn
17. ee neidr neu fadfall
22. Adeilad er cof am rywun neu rywrai
23. Gwahanu a rhoi mewn trefn
25. Diffyg bod yn 13 ad
26. Dadrithiad
27. Un o wledydd y Baltig
28. Gwirod wedi ei ddistyllu o win

**I Lawr :**
1. Cartref (dychmygol) Edward Vaughan
2. Lle i dderbyn addysg
3. Elfen rhif 8, symbol O
5. Organeb ungellog
6. Pennaeth un o adrannau'r llywodraeth
7. ee Charli Britton
8. Unionsyth
14. Gweithred grefyddol
16. Perfedd 18. Alaw
19. Aelod o gorff sy'n gwarchod buddianau gweithwyr
20. Symud i le newydd
21. ...... Metcalfe, cyflwynydd teledu
24. Deuddeg

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

MALDWYN WILLIAMS

Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR

GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar



Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn yr Amgueddfa fel rhan o ddathliadau Gŵyl Ganol Haf Dinbych. Y Bore Coffi oedd y cyntaf, ar ddiwrnod cyntaf Mehefin, a diolch i bawb a'n cefnogodd, gan gynnwys pobl a deithiodd yn unswydd o'r Rhyl a Llangollen. Tra bod pobl yn yfed eu coffi ac yn sgwrsio i lawr y grisiau, roedd pobl eraill yn mwynhau sesiwn grefftau i fyny'r grisiau. Bu'r plant yn creu heuliau o does halen, yn eu crasu yn y pobty a'u peintio a'u farneisio. Buon nhw hefyd yn creu heuliau origami. Bu'r oedolion yn peintio ar sidan ac yn creu cardiau cyfarch deniadol iawn. Mae'r Sesiynau Crefft yn cael eu cynnal ddydd Sadwrn cyntaf y mis drwy'r flwyddyn, 10.30-12.30, ac yn agored i blant 6-12 oed. Croeso i unrhyw un daro i mewn. Mae ein Tîm Addysg hefyd yn awyddus i ymweld ag ysgolion a grwpiau plant, i drefnu gweithgareddau yn gysylltiedig â darlledu a'r Amgueddfa Radios.





Diolch i bawb oedd yn ddigon dewr i ddod i'r Noson Gwis ar noson eithriadol o wlyb! Cafwyd noson o gystadlu brwd a hwyl.



Cynhaliwyd Diwrnod Ymarferol Technegol ar y 15fed a braf oedd gweld teuluoedd yn taro i mewn. Yn y llun gwelir Rhys a Seren yn gweithio ar Cod Morse. Roedd hi'n braf hefyd i gael croesawu ymwelydd o Amgueddfa Lerpwl i'n plith am yr ail dro.

Bydd yr Amgueddfa ar agor bob dydd Llun a dydd Sadwrn ym mis Gorffennaf a mis Awst. Byddwn hefyd ar faes Sioe Dinbych ac yn y Babell Wyddoniaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. O ddechrau mis Medi byddwn yn agor ar ddydd Gwener yn lle dydd Llun, ac ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis. Mae'n bosib wrth gwrs i unrhyw un ymweld â'r Amgueddfa ar unrhyw adeg, trwy drefnu o flaenllaw wrth gysylltu ar yr ebost,

**HEN LUNIAU**

Os oes gennych hen luniau o'ch teulu, cymdogion neu ffrindiau o'r ardal ac yn dymuno eu rhannu gyda darllenwyr y Bigwn, anfonwch ar ffurf ebost at ybigwn@hotmail.co.uk ac fe roddwn un llun bob mis yn Y Bigwn. Os yn bosib, byddai enwau, digwyddiad neu yr achlysur yn help i bawb adnabod y llun.

Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad,
Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue,
Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
National SAIF Independent Funeral Directors

# Twm o’r Nant

Dyma ni ar drothwy’r gwyliau haf, mae pawb yn edrych ymlaen am wyliau ac yn croesi bysedd y cawn dywydd braf i ymlacio wedi blwyddyn brysur yma yn Nhwm o’r Nant.

Cawsom ymwelwyr pwysig ESTYN yma yn arolygu yr ysgol am wythnos yn ddiweddar. Cafodd y tîm weld yr holl brofiadau mae’r plant yn eu derbyn yma, a dysgu am yr holl bethau arbennig yr ydym yn ei wneud yma fel ysgol. Erbyn i'r rifyn hwn o’r Bigwn ddod allan disgwyliwn y bydd yr adroddiad llawn wedi ei gwblhau ac wedi cael ei gyhoeddi yn y wasg. Bydd cyfle i bawb ei darllen bryd hynny, cadwch lygad allan amdani!

Cawsom gryn lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd eleni ym Mae Caerdydd. Aeth 40 o aelodau côr yr ysgol i lawr i Gaerdydd a chawsom brofiad arbennig o ganu ar lwyfan Canolfan y Mileniwm. Roedd pawb yn gyffroes iawn gefn llwyfan gyda 18 o gorau i gyd yn cystadlu. Ni ddaethom i frig y tri cyntaf ond roedd hi yn fraint mawr cael canu ar lwyfan mor arbennig a phawb yn edrych yn smart yn eu crys a thei.

Bu sawl gwobr yn y maes celf a chrefft i Ysgol Twm o’r Nant. Llongyfarchiadau mawr i bob un o’r plant yma a gafodd y wobr gyntaf. Gruffudd Crowther am waith creadigol 2D yn adran anghenion dysgu ychwanegol, Alaw Jones an waith tecstiliau creadigol 2D i flynyddoedd 5 a 6, Beca Edwards am waith tecstiliau creadigol 3D i flynyddoedd 5 a 6, Sioned Jones am waith tecstiliau creadigol 2D i flynyddoedd 3 a 4, Grŵp Saffari sef Iwan, Ethan ac Aaron am waith tecstiliau creadigol 2D i grŵpiau. Da iawn hefyd i grwp Beca, Catrin a Nia ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth gwaith grwp creadigol 3D. Roedd yr holl gynyrch yn cael ei arddangos yn adeilad y Senedd yn ystod yr Eisteddfod ac yn werth ei weld.



Côr yr ysgol



Llongyfarchiadau i Beca Fflur Edwards ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Daeth yn ail yn yr Unawd Cerdd Dant a hefyd cafodd gyntaf am ei Gwaith Creadigol 3D Tecstiliau Bl 5 a 6.



Enillwyr Celf Eisteddfod yr Urdd



Sioned Pugh Jones gyda’i llun buddugol yn yr Eisteddfod.

Uned dan 11

Y tymor yma, rydym wedi bod yn archwilio’r thema ‘Pencampwyr’. Rydym wedi bod yn cydweithio gyda llawer iawn o bencampwyr y byd chwaraeon ein hardal leol fel Mark Webster a Mark Williams. Yn ogystal â hyn, roeddem yn ffodus iawn i gael y sylwebydd Nic Parry ac Elen Wyn i edrych ar ochr sylwebaeth a ffilmio a Dr Karen Jones i drafod am y galon a’r pwls. Roedd y plant yn amlwg wedi mwynhau a rhown diolch iddyn nhw am eu gwaith caled.

Mae’r tymor yma wedi bod yn brysur iawn i ni fel uned, ac roedd disgyblion blwyddyn chwech yn ffodus i gael mynd i Gaerdydd! Yno cawson weld ein prif ddinas a’i holl adeiladau hardd. Yn ogystal â hyn, roedd disgyblion blwyddyn 5 yn cael mynd ar daith i Langrannog lle cawson lawer o hwyl yn marchogaeth, nofio a llawer mwy! Yn wir, roedd pawb wedi blino yn cyrraedd yn ôl!

Hoffem ddymuno yn dda i pob disgybl sydd yn ymadael â’r ysgol eleni, a gobeithio na fyddent yn ddiarth ac yn cofio am eu gwreiddiau yma yn Ysgol Twm O’r Nant.



Bl6 yn y senedd



Rydym wedi derbyn gwobr aur y siarter iaith fel ysgol, ac yn falch iawn ohoni. Diolch i Ms Amanda Williams am arwain y plant ac i’r holl ddreigiau iaith am eu gwaith caled. Diolch hefyd i Mrs Elen Wyn Jones sy’n riant lywodraethwr am fod yn rhan o’r broses ac am ein helpu i dderbyn y wobr arbennig yma. Bu Matthew a Lleucu, sef dreigiau iaith blwyddyn 4 yn cynrychioli yr ysgol mewn seremoni arbennig o dderbyn y wobr, yn Siamber y Cyngor, yn Rhuthun yn ddiweddar.






Uned dan 9
Daeth Mr Rhys Thomas i ymweld â'r Uned dan 9. Daeth i sôn am gadw gwenyn. Mae plant yr Uned wedi bod yn brysur yn creu gwestai gwenyn er mwyn eu rhoi yn yr ardal tu allan. Diolch i Mr Thomas am roi gymaint o wybodaeth i ni ac am y wledd o gael blasu ei fêl arbennig.





Fel rhan o'n thema ar deithio, aeth plant yr Uned dan 9 i amgueddfa Dinbych, lle cawsom weld model arbennig o sut oedd gorsaf dren Dinbych yn edrych. Mae hi'n arddangosfa gwerth ei gweld, cofiwch fynd am dro. Roedd y plant wedi synnu ar sut oedd yr hen reilffordd yn edrych. Diolch i deulu Ryan am roi gwybod i ni am yr arddangosfa.



Bl5 yn sgio yn Llangranog




**Uned dan 5**
Mae hi wedi bod yn dymor andros o brysur yn yr Uned dan 5 y tymor yma.  Ein thema oedd Yn y Gwyllt a rydym ni wedi bod yn astudio bywyd gwyllt o bob math.
Daeth Cath o Goleg Llysfasi i ddangos pob math o greaduriaid gwyllt diddorol i ni.
Rydym ni wedi dysgu llawer am greaduriaid gwylllt oedd yn byw ers talwm hefyd.  Buom yn chwilio am gliwiau ac yn ymchwilio am wybodaeth.  Cawsom lawer o hwyl yn dysgu am losgfynyddoedd ac yn creu llosgfynydd oedd yn ffrwydro yn y dosbarth tu allan.





Daeth Tomos i'r ysgol un sydd yn archaeolegwr go iawn, a buom yn cloddio yn y tywod am gliwiau.




Wrth ddysgu am guddliw ym myd natur, fe fuodd Mrs Meira Jones yn brysur yn peintio wynebau'r plant ac fe fuon nhw yn dod o hyd i lefydd da i guddio yn yr ardd. Ydych chi'n gallu ein gweld ni?




Yn ein gwersi mathemateg fe fuon ni'n edrych ar batrymau ym myd natur ac ar batrymau cymesur.




Roedd hi'n braf cael ymlacio tipyn bach yn ein gwersi Addysg Gorfforol a gwneud ychydig bach o ioga.




Uned Dan 7


Unwaith eto mae o wedi bod yn dymor hynod o brysur yn yr Uned Dan 7. Ein thema ni oedd Palu a Chwalu.

Yn gyntaf hoffem longyfarch plant o'r Uned Dan 7 aeth i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir yng nghystadlaethau canu, cerdd dant a llefaru. Aeth Mati Nel ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd, da iawn i bawb!






Cawsom ddysgu am gylch bywyd y pili pala a braf oedd gweld cyffro yn wynebau'r plant wrth iddynt ryddhau 14 pili pala yn yr ardd ar fore braf.





I ddiweddu'n thema cawsom brynhawn o gystadlu brwd yn ein Eisteddfod yng Ngardd y Rwla! Cafwyd gystadlaethau celf, ysgrifennu, canu a llefaru. Llongyfardchiadau mawr i'r holl enillwyr a diolch enfawr i'n Beirniad Miss Sian Jones, cafwyd prynhawn wrth ein boddau




Roedd y plant wedi bod yn hynod brysur yn plannu bob mathau o hadau a phenderfynwyd cynnal stondin flodau ar ein buarth i werthu'r blodau. Mi wnaeth y plant botiau bach hyfryd a bocsys pren er mwyn rhoi'r blodau ynddynt a'u gwerthu. Codwyd £70 ac mae'r plant wedi dewis llyfrau darllen newydd i'r Uned Dan 7 i'w prynu gyda'r arian. Diolch i bawb wnaeth gefnogi'r fenter.




siop siocled
01745 814864 dinbych
Siocled o wlad y Belt
Siocled cymraeg o Bala
Pizza siocled - Te, coffi a sgwrs
Cinio ysgafn - Cacenau blasus a sgons
Annie
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Ddoe yn Ysgol Twm o'r Nant

Wel dyma ni , wedi cyrraedd blwyddyn 6...y flwyddyn olaf yn ysgol Twm or Nant. Rydw i'n cofio y diwrnod cyntaf yn Nhwm fel ddoe. Mam yn tynnu llun ohonaf fi a fy efaill cyn mynd I'r ysgol..a minnau yn meddwl mod i dipyn o foi! Fy mag yn fwy na fi ond roeddwn yn andros o gyffrous i ddechrau fy ysgol gyntaf erioed.

Roeddwn wrth fy modd yn yr ardal tu allan gyda Mrs Meira ac Mrs Lynda yn y meithrin a derbyn. Fy hoff beth oedd creu pei mwd ac fel petawn yn ei werthu i fy ffrindiau. Cawsom ni hefyd beintio y garafan enwog sy'n yr uned dan 5...mae'n werth ei gweld!! Mae gen i atgofion melys o bicnic tedi bêr a chreu jeli lliw y grwpiau dosbarth yn yr ystafell staff a dwi'n cofio Mrs Lynda yn dweud wrthom i beidio dweud wrth yr athrawon. Buom ni hefyd yn trio ein gorau glas i wneud sioe Nadolig a finnau'n canu ar ben fy hun yn actio y dylwythen deg. Roeddwn yn wên o glust i glust a dyna oedd cychwyn fy nghariad at ganu. Diolchaf am y cyfleoedd yma i fagu hyder o flaen cynilleidfa.

Blwyddyn 1 a 2 oedd y blynyddoedd nesaf sydd yn fy atgofion melys i. Mi roeddwn yn mynd i ystafell ddosbarth Mrs Thomas i ganu gyda ychydig o fy ffrindiau ar ôl ysgol. Roeddwn wrth fy modd yn chwilio am drychfilod a byth yn rhoi ffidil yn y to i'w ffeindio nhw. Cofiaf wylio datblygiad y lindis yn troi mewn i gacwn ac yna yn troi fewn i pili pala prydferth yn fflio yn mhob man yn y dosbarth.

Glan-llyn ger y Bala oedd fy uchafbwynt ym mlwyddyn 3 a 4. Bum yn mynd ar ganŵ ar Lyn Tegid ac wrth gwrs dringo'r wal fawr, cawsom lawer o hwyl! Trip arall oedd i weld amgueddfa ger Caer a chael gwisgo fyny a chael cogio bod yn Rufeiniaid. Hefyd yn yr amgueddfa Rhufeiniaid roeddwn yn cael mynd o amgylch amgueddfa gyda tywysydd oedd yn dweud wrthon be di be.

Ym mlwyddyn 5 a 6 aethom ar drip i barc Saffari Knowsely i weld yr holl anifeiliaid gwahanol. Cawsom deimlo malwen anferth â'i chragen fel bricsen arw. Pan roeddwn yno mi gawson sioe anhygoel gan y morloi. Yn ffodus iawn cawsom dri pencampwr i'r ysgol i gyd fynd a'n thema pencampwyr.Cawsom gyfle i gysylltu ar skype â dyn yn Siapan oedd wedi dysgu siarad Cymraeg ac wedi sefydlu cwrs Cymraeg yn Siapan...dwi'n gwybod, anhygoel de!! Uchafbwynt blwyddyn 5a6 oedd ein tripiau preswyl i Langrannog a Chaerdydd...mae gennyf lawer o atgofion i drysori am byth bythoedd!! Wel, am flynyddoedd 'jam packed' oedd yr 8 mlynedd dwethaf. Diolchaf o waelod calon am yr holl brofiadau rwyf wedi eu derbyn ac am addysg wych sydd wedi fy mharatoi ar gyfer y bennod newydd yn fy mywyd. Lwcus iawn ydw i o gael fod yn rhan o deulu Twm!!!

**Beca Fflur**

Rwyf wedi cael llawer o atgofion hyfryd yma yn Twm o'r Nant ac yn edrych ymlaen i gael llawer mwy yn ysgol uwchradd. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at gael ffrindiau newydd a chael gwersi newydd. Byddaf yn Colli ysgol Twm or Nant yn fawr iawn. Byddaf yn colli yr athrawon, a phlant sydd yn mynd i ysgol uwchradd wahanol neu sydd yn iau na ni. Rwyn gobeithio nai ddim crio yn y sioe gadael (byddaf siwr o wneud) gawni weld!!

Rwyn cofio yr picnic tedi ber fel ddoe pan wnesi enwi fy hoff dedi ar ôl fy ffrind gorau Beca Lois. Rwyf hefyd yn cofio peintio y garafan yng ngwaelod yr ardd, peintiais y blodyn piws (un da dio fyd!!). Mae'r garafan yn dal yno rwan a gobeithio fydd o am sbel! Un o fy hoff flynyddoedd oedd meithrin a derbyn, roedd yn ardderchog drwy cael hwyl a dysgu . Gobeithio caf yr un maint yn Glan Clwyd.

Ym mlwyddyn un a dau aethom i weld castell Dinbych a chael sglodion blasus iawn yn y parc. Ym mlwyddyn tri a phedwar aethom ar drip diddorol i ddysgu am y Rhufeiniaid i Gaer roedd yn hwyl! Atgof arall sydd yn anhygoel oedd sioe Nadolig blwyddyn pump a chwech pan cefais fy newis i actio Sindarela yn neuadd y dre, roedd yn brofiad ardderchog ond crynais fel jeli.

Mae amser wedi hedfan, un munud rwyn meithrin yn chwarae yn y mwd a'r munud nesaf rwyn paratoi at y sioe adael. Dydwi methu coelio bod wyth mlynedd wedi pasio. Pan roeddwn i yn hogan fach, fi a fy ffrind gorau Beca Lois oedd y 'dybl trybl' oherwydd ni oedd siaradwyr y dosbarth. Dwin siwr fysa rhai pobl yn dweud y run un peth heddiw!!!

Rwyn cofio yr holl dripiau ardderchog fel Caerdydd, Llangaranog a Glanllyn,byddaf yn trysori yr holl adegau hwyl doniol a hapus am byth. Rwyf wedi gwneud ffrindiau bywyd yn Twm o'r Nant a rwyf eisiau diolch i'r holl athrawon sydd wedi fy nysgu (er eu bod nhw wedi rhoi gwaith cartref i mi) a sydd wedi fy helpu i dyfu ac aeddfedu. Rwyf hefyd eisio diolch i fy rhieni a ffrindiau am edrych ar fy ôl a fy ngwneud yn hapus pan rwyn drist. Diolch o waelod calon.

**Catrin**

Mae'r amser wedi hedfan yn Twm o'r Nant a fedrai ddim credu mod i ar 'countdown' i'r diwrnod ola'! Teimlaf yn gyffrous am y bennod newydd ond rwy'n drist i adael Twm! Mae gennyf lawer o atgofion i'w trysori o fy amser yno.

Yn Meithrin a Derbyn, un o fy atgofion gorau oedd pan roeddwn yn y grŵp coch yn gwneud cacennau mwd ac addurno y cacennau hefo dail. Roeddem yn mynd ar y beic a'r sgwters lawr yr allt hefo Mrs Meira a Mrs Lynda a Mrs Jenny. Hefyd rwyf yn cofio peintio y garafan yn ngwaelod y cae gwyrdd. Peintiais pili pala glas a choch. Cawsom gychwyn da yn yr Uned dan 5!!

Ym mlwyddyn 1 a 2 rwyf yn cofio mynd i Park Hall a gweld llawer o anifeiliaid fferm, a'r ras foch enwog!! Dwi'n cofio dod â llawer o flodau i'r ysgol i blannu hefo Mrs Shian ac mae nhw yn dal yn yr ardd rwan. Cawsom lawer o hwyl yn gwisgo fyny fel môr-ladron a chwarae yn y gwch yn yr ardal tu allan ardderchog.

Ni oedd y plant cyntaf i gael mynd i'r estyniad newydd ym mlwyddyn 3 a 4...ew roedd yn posh!! Cawsom lawer o brofiadau di-ri a chael cymeryd rhan mewn amryw o chwaraeon. Aethom i Lan Llyn yn mlwyddyn 4 ac er fy mod yn teimlo chydig yn bryderus yn gadael Mam a Dad, cawsom amser anhygoel.

Blwyddyn 5 a 6 oedd fy hoff flynyddoedd yn ysgol a dyma rhai o fy hoff atgofion. Rwyf yn cofio mynd i dwrnament rownderi ym Mlwyddyn 5 a mynd i dwrnament pêl-droed ym mlwyddyn 6-cawsom 3ydd. Yn ddiweddar, aethom am drip 2 noson i Gaerdydd a chael mynd o amgylch y Senedd, Stadiwm Principality a Canolfan y Mileniwm! A bwyta llawer o fferins wrth gwrs!!! Fy hoff weithgaredd oedd cael taith o amgylch stadiwm y mileniwm...aethom i mewn i ystafelloedd newid chwareuwyr rygbi Cymru!!!

Wrth edrych nôl ar yr holl atgofion rwy'n gwenu o glust i glust ac yn ddiolchgar iawn o fod wedi cael fy addysg yn ysgol Twm or Nant. Atgofion bythgofiadwy!!

**Dafi**

Mae'n teimlo fel ddoe pan gerddais i mewn I ddosbarth Mrs Jones hefo fy mag Mrs Chattabox, fy ngwallt cyrliog mewn ponytail a gwisg ysgol yn fy moddi, ond rhywsut rydwi ym mlwyddyn 6 ac yn paratoi ar gyfer ysgol uwchradd!! Mae gennym lawer o atgofion arbennig o Ysgol Twm o'r Nant, ond dwi'n meddwl fod pawb yn barod i symud mlaen erbyn hyn!!

Mwynheais beintio'r garafan hefo Mrs Meira a Mrs Linda.Peintiais ddraenog a pilipala lliwgar! Atgofion melys o'r picnic tedi bêr ar y cae gyda fy ffrindiau a chael box bwyd. Dwi'n cofio cael mynd â tedi Tomos adre ac esi a Tomos I Dolwen i weld fy hen nain a mynd i wers bale. Gwnaethom jeli lliwgar a chawsom lawer o hwyl yn canu a dysgu llythrennau.

Ym mlwyddyn 1 a 2 aethom i Fferm Park Hall, roedd yn diwrnod arbennig.Cawsom wylio ras moch a chael llawer o hwyl yn y parc.Roeddwn yn hoffi mynd i fferm Pili Palas i weld yr holl pili palas lliwgar yn hedfan yn y awyr. Roeddwn wrth fy modd yny gegin fwd tu allan ac yn chware coginio a caffi a chwillio am drychfilod ar y cae mawr.

Cawsom lawer o brofiadau gwych ym mlwyddyn 3 a 4 ac aethom i Gaer ar drip Rhufeiniaid chael taith rownd Caer. Cafodd pawb wisgo fyny fel Rhufeiniaid a roedd pawb yn dal tarian. Dwi'n cofio mynd i Glan Llyn a neud llawer o weithgareddau chwareon e.e wal ddringo,adeiladu rafft,ac roedd o yn andros o hwyl. Wnaeth pawb fwynhau.Cerddom i fyny I'r dref i fynd I'r castell ambell waith!

Ym mlwyddyn 5 roeddem yn ffodus iawn i fynd i Langranog am ddwy noson!! Wel am hwyl!! Yno fe wnaethom ni trampolinio, skio a go-cartio, roedd yn brofiad anhygoel. Cefais gymeryd rhan mewn twrnamentau pêl droed genod a bechgyn,rygbi genod a phêl rwyd. Aethom i Lerpwl i amgueddfa y Beatles wrth ddysgu am y 60au a hefyd I barc safari Knowsley i ddysgu mwy am anifeiliaid. Roedd ein sioe Nadolig yn ardderchog… cawsom fynd i'w pherfformio yn Neuadd y Dre!Fi oedd un or tri gŵr doeth! Y darn gorau o flwyddyn 6 oedd ein trip dwy noson yng Nghaerdydd. Roedd yna lawer o bethau da wedi'w trefnu ar ein cyfer, e.e cwch ar y bae, taith o amgylch y Senedd a'r stadiwm a llawer o hwyl yn bowlio 10!!

Wrth ysgrifennu yr holl atgofion, rydw i'n sylweddoli fod yr 8 mlynedd diwethaf wedi bod yn wych!!! Diolch i'r holl staff a ffrindiau oes am wneud fy amser yn ysgol Twm or Nant yn un arbennig!

**Phoebe**

Mae'n teimlo fel dim ond ddoe pan roeddwn ar fy niwrnod cyntaf yn Ysgol Twm o'r Nant. Rwyf yn cofio bron iawn popeth ac rwyf wedi cael llawer o hwyl yn yr ysgol hon. Dwin cofio mynd allan i chware a dysgu hefo Mrs Meira a Mrs Lynda a phaentio y garafan (un smart ydio hefyd!). Rwyf yn cofio'r picnic tedi ber a bwyta brechdanau jam. Yn mlwyddyn dau dwin cofio'r siop hufen iâ yn y dosbarth ond doedd neb yn talu y pris cywir a neb yn rhoi'r newid i'w gilydd oherwydd doeddem ddim yn dallt pres eto ac yn rhoi extras i'w ffrindiau gorau!!! Dwin cofio mynd i fferm Parc Hall a gweld y moch yn cael rasus a'r lle bwyta yn hogle fel baw gwartheg. Dwin cofio'r sioe môr ladron yn mlwyddyn 1 a 2 a'r gegin fwd tu allan hefo'r cacenau mwd. Roedd pawb yn fudur wedyn...dwin siwr oedd gan Mrs Shian stoc o sanau sbâr!! Dwi'n cofio ennill twrnament criced drwy Gogledd Cymru ym mlwyddyn 4...roedd yn ddiwrnod i'r brenin!

Dwin cofio fy nhrip cyntaf i Glan Llyn roedd gennyf pili pala yn fy mol I'r trip...rhyfedd iawn oedd gadael Mam a Dad a Jacob. Roedd pawb yn cael neidio i mewn i Llyn Tegid arôl bod ar canŵ a pawb yn chware 'knock and run'. Cawsom fynd i Gaer i ymweld a'r lle Rhufeinig, cawsom ddysgu beth roedd y pobol amser hynny yn ei neud a beth roedden nhw'n dddefnyddio mewn brwydrau. Ym mlwyddyn 5 a 6 cefais chwarae mewn llawer o dwrnmentau pêl droed ac mewn un sgoriais 9 gôl!!! Rwyf yn cofio hefyd mynd ar y traeth i chware rygbi tag! Profiad gwych oedd cael sgwrs skype hefo Takeshi o Siapan am ei brofiad o ddysgu yr iaith Gymraeg a'i gariad at yr iaith. Cawsom ymweld â parc saffari Knowsley a gweld yr holl anifeliaid. Yn fwy diweddar cawsom fynd am ddwy noson i Gaerdydd! Cawsom amser arbennig yno a llawer o hwyl ond doedd i ddim yn colli adref gymaint tro hwn!!! Yn Sain Ffagan ar y ffordd yn ôl o Gaerdydd mi wnaeth ein grŵp ni (Ianto, Aled, Leon, Owain, Mabon, George, Gwion a Bobi) safio moch bach oedd wedi cael eu gadael allan o'r buarth ac yn rhedeg ogwmpas y lle!! Dwi'n methu coelio mod i yn sgwenu am fy amser yn Twm o'r Nant a'i fod bron â dod I'r diwedd. Fydda i byth yn anghofio fy amser yn Twm o'r Nant. Diolch am yr holl atgofion. Rwyf yn gyffroes i gael gwneud ffrindiau newydd a dysgu mwy yn yr Ysgol Uwchradd.






## Ysgol Glan Clwyd

Llwyddiannau Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019.

**Cystadleuthau Llwyfan:**

Owain John Jones - 1af unawd bechgyn Bl10 a dan 19 oed

Owain John Jones - 2il Unawd Cerdd dant Bl 10 a dan 19 oed

Owain John Jones - 3ydd - Alaw Werin Bl 10 a dan 19 oed

Mali Elwy Williams - 2il Unawd Sioe Gerdd Bl 10 a dan 19 oed

**Gwaith Celf:**

3ydd Miriam Owen - Dyluniad 2D Bl 10 a dan 19 oed

3ydd Miriam Owen Graffeg Cyfrifiadurol bl 10 a dan 19 oed

**Llongyfarchiadau** i dîm Athletau dan do Blwyddyn 7ac8 am ennill tarian Sir Ddinbych. Daeth y tîm merched, a bechgyn yn gyntaf yn eu cystadleuaeth!

**Llongyfarchiadau** i nifer o ferched bl 10 a gymerodd ran yn 'Race for Life' yn Rhyl yn ddiweddar. Da iawn chi ferched!

**Llongyfarchiadau** hefyd i nifer o'n disgyblion(a staff) a fu'n cystadlu yn Rali Ffermwyr Ifanc Sir Clwyd ar ddydd Sadwrn. Daeth llwyddiant i nifer ohonynt.

Mae bl 7 wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn codi arian i elusen 'Achub y Plant'. Mae pob dosbarth wedi bod yn cynnal gweithgareddau amrywiol megis gwerthu cacennau, bod yn dawel am amser, raffl, ffilm amser cinio, ac fe wnaeth un disgybl - Seren Penney greu y gacen a welir yn y llun a bu raffl ohoni, a'r enillydd oedd Mr Dion Howatson. Diolch iti Seren



**Seremoni Cofnod Cyrhaeddiad.** Daeth diwedd cyfnod i nifer o'n disgyblion ym ml 11 a 13 wrth iddynt ddechrau ar eu cyfnod arholiadau Lefel A, UG a TGAU. Bu seremoni Cofnod Cyrhaeddiad bl 11 yn y Gadeirlan ar brynhawn Iau, Mehefin 20fed, ac roedd y Gadeirlan yn llawn o deulu a pherthnasau'r disgyblion. Cafwyd seremoni gofiadwy i'r disgyblion ac araith berthnasol gan ein gŵr gwadd, sef Mr Dylan Jones (BBC Cymru). Cafwyd eitemau unigol gan Erin Swyn Williams, James Taylor, Leah Jones, Maisie Smith ac Owain John Jones, a hefyd, Fflur Evans, Ellen Groom, Beth Evans a Daniel Dain-Dodd yn hel atgofion o'u hamser yn Ysgol Glan Clwyd. Dymunodd Mrs Cartwright a Mr Dewi Owen (Pennaeth Cynnydd) pob llwyddiant i'r disgyblion i'r dyfodol.




PEN-RHYWBETH-NEU'I-GILYDD – atebion

| | |
|---|---|
| Pentref | Penderfynu |
| Pennill | Penbwl |
| Pensiwn | Penglog |
| Pensel | Penwaig |
| Pennaeth | Pendil |



Yn ddiweddar cafodd dau o'n hathrawon D+T eu gwahodd i fynd i weld cynnyrch ein cyn-ddisgyblion a oedd yn graddio ym ,Mhrifysgol Bangor. Yn y llun, gweler Mr Dion Howatson a Mr Sion Jones (ein hathrawon) a Sam Nash ac Elgan Jones.

## Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru

## Traed Fyny!

Tair blynedd yn ôl pan oeddwn yn feichiog efo Siôn teimlais fel fy mod ar ganol croesfan gyrfa. Efallai mai'r ffaith am hyn oedd y brên babi, ond pan 'steddais i lawr (gyda'n nhraed chwyddedig) dechreuais feddwl fwy o ddifri am "fy swydd berffaith", ac i ba swydd hoffwn fynd yn ôl iddi ar ddiwedd fy nghyfnod mamolaeth. Roeddwn yn gofyn i mi fy hun os oedd 'na rhywbeth arall fedrwn ddysgu a chynnig i eraill – a thros y bol 7 mis oed mi welais i'n nhraed chwyddedig eto, a meddwl – Reflexology!

Fel un sydd wedi elwa o sawl triniaeth Adweitheg (Reflexology) - yn lleddfu poenau sinus, traed chwyddedig, cur pen, poen bol a phoen cefn – i enwi rhai, mi feddyliais am fedru dysgu mwy am y grefft neu'r rhodd o allu gwella eraill, drwy'u traed, a chyn ail-feddwl roedd fy enw lawr ar gyfer cwrs o'r radd uchaf bosib mewn Adweitheg (oedd, digwydd bod,yn cychwyn 6 wythnos ar ôl i Siôn gael ei eni!). Os gwneud – gwneud yn iawn!

Teimlais fod y cyfle yn rhy dda i'w golli a chyda chefnogaeth amhrisiadwy fy ngŵr, teulu a'm ffrindiau – dair blynedd ers y wers gyntaf, dros 160 awr o oriau ymarfer a dysgu dan oruchwyliaeth ac o leiaf 12 o astudiaethau achos manwl yn ddiweddarach, mae gen i fwy o lythrennau tu ôl i fy enw a thystysgrif i gadarnhau fy mod i'n cael cynnig Adweitheg fel gyrfa newydd!

Pan edrychwch chi ar eich traed, mae'n bur debyg y gwelwch chi draed digon arferol (ac os ydych yn onest, dwi'n siwr nad ydych chi wedi meddwl ddwywaith amdanyn nhw!) – ond, drwy lygaid Adweithegwyr mi welwn ni fwy na hynny. Mi sylwn ni




ar wead y croen, lliw a thymheredd y traed, ffordd mae'r traed yn ymlacio neu fethu ymlacio ac mi deimlwn ni gysylltiadau egnïol ar wahanol ardaloedd atgyrch (reflex points) sy'n dynodi organ/nau arbennig neu ran arbennig yn y corff. Mae'r anghydbwysedd yma'n adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd i chi a/neu rannau o'ch corff chi. Gweithiwn drwy roi pwysau (neu weithio yn yr auro), a chyfuno symudiadau i leddfu'r rhwystrau ynni, clymau a phoen yn yr ardaloedd perthnasol a'r cyfan yn hybu'r corff i wella'i hun sydd wedyn yn hybu corff a meddwl iach.

Mae'n anodd cyfleu'rgwir fuddiannau sydd i'w cael o sesiwn Adweitheg ar bapur – y ffordd orau ydy i brofi drosoch eich hun. Rhowch eich 'Traed Fyny'a helpwch eich hun i wella.

***Gostyngiad arbennig i ddarllenwyr y Bigwnmis Gorffennaf ac Awst 2019: 20% o ostyngiad oddi ar eich sesiwn 1af drwyddefnyddio'rbonyn hwn. Cysylltwch am rhagor o wybodaeth neu i drefnu sesiwn. Diolch.**

**20% O OSTYNGIAD**

Traed Fyny
Feet Up

**ODDI AR EICH SESIWN 1AF**
**(yn ddilys hyd: 31/08/09)**
**T: 07368 10 33 77**

**E: nia@traedfyny-feetup.co.uk**

## Dagrau Ddoe

Pan oeddwn yn yr ysgol gynradd yn ystod y 50au, crybwyllais wrth fy nhaid, y diweddar Edward Jones, fod gennym wers arddio yn yr ysgol y diwrnod canlynol. Meddai fy nhaid wrthyf, "Bydd yn ofalus, oherwydd cafodd bachgen oedd yn yr un dosbarth â mi ei ladd mewn gwers arddio, pan drawyd ef yn ei ben gan fachgen arall gyda chaib." Ni roddais lawer o sylw i'r peth, ond meddwl fod fy nhaid yn ceisio rhoi braw i mi er mwyn i mi fod yn ofalus.

Rhyw bymtheng mlynedd yn ôl, roeddwn yn teithio heibio Melin Brwcws, ar fy ffordd i Rhuthun, pan welais y diweddar Dan Davies yn cerdded tuag at Rhuthun. Bu Dan fyw i fod dros gant oed. Stopiais, a daeth Dan i mewn i'r car. Meddwn wrtho, "Be da chi'n 'neud yn fama Dan?". "Wedi bod yn y lle garddio Kwiks 'ne i nôl tatws plants, ac wedi colli'r bws". Aeth y sgwrs ymlaen i sôn am arddio.

Dywedais wrtho, er cywilydd i mi, nad oeddwn yn garddio o gwbl, er bod fy nhad yn arddwr arbennig oedd wedi cael ei ddysgu i arddio yn Ysgol Cyffylliog. Meddai Dan, "Chawson ni ddim garddio yn Ysgol Carrog gan i fy mrawd hynaf gael ei ladd pan drawyd ef yn ei ben gyda chaib." Roedd hyn bron i hanner canrif ers i fy nhaid ddweud yr hanes yma wrthyf. A dyna'r unig ddau dro i mi glywed yr hanes eithriadol o drist hwn.

Geraint Roberts

**SIOP CLWYD**

**33 STRYD FAWR**
**DINBYCH**
**01745 813431**



Llyfrau, Cardiau,
Crynoddisgiau
a Chrefftau

# Beicio yn Llundain



Ym Mis Awst bydd Guto a Phil yn ymgymeryd â sialens feicio yn Llundain. Cafodd Magi, Gwen, Sophie a Matthew gyfle i'w holi.

**Pa mor bell ydi'r daith?**
100 milltir

**Faint o bobl eraill sydd yn gwneud y daith?**
25,000 sydd yn beicio 100 milltir fel fi a Phil.

**Ymhle yn Llundain mae'r daith?**
Mae'r daith yn dechrau yn Mharc Olympaidd y Frenhines Elizabeth, yn mynd drwy'r brif ddinas, wedyn drwy Surrey cyn gorffen nôl yn Llundain ar Y Mall o flaen Palas Buckingham.

**Pa mor hir mae'r daith yn mynd i gymeryd?**
**Guto**: Rhwng 6 a 7awr.
**Phil**: Dwi'n gobeithio cwblhau y daith o dan 7awr ond gall gymeryd mwy o amser.

**A ydych wedi newid eich deiet er mwyn paratoi i'r daith?**
**Guto**: Dim llawer ond rydw i'n ymdrechu i fwyta'n iach o hyd.
**Phil**: Mae gen i ddeiet iach ar y cyfan. Rwy'n canolbwyntio ar fwyta protîn ar ôl ymarfer i helpu'r cyhyrau i gryfhau a digon o garbohydradau cyn ac yn ystod ymarfer.

**Faint o bres ydach yn meddwl godi?**
Rydan yn gobeithio codi dros fil o bunnoedd yr un.

**I bwy mae'r pres yn mynd?:**
**Guto**:Yr elusen rwy'n gefnogi ydi Water Aid. Dylai dŵr glan, toiledau boddhaol a glendid da fod yn rhan arferol o fywyd pawb. Heb y tri yma ni all pobl fyw bywydau iachus. Efo'r tri yma, gall pobl ddatgloi eu potensial, torri i ffwrdd o dlodi a newid eu bywydau am y gorau. Efo dŵr glân, toiledau boddhaol a glendid da mae plant yn cael eu geni yn iachach. Maent yn cael cyfle i fynd i'r ysgol a thyfu i fyny i fod yn oedolion. Mae'r oedolion yn cael cyfle i ennill cyflog ac mae'r cymunedau'n ffynnu. Mae'n swnio'n arferol a fel hyn y dylsai fod.
**Phil**: Rydw i'n codi arian at Cancer Research UK. Mae'r achos yn agos iawn i mi. Rwy'n gweld nifer o gleifion yn y gwaith yn dioddef o gancr. Mae rhai teulu a ffrindiau wedi bod drwy driniaeth. Mae'r ystadegau yn awgrymu bod 1 o bob 2 yn debygol o ddioddef o gancr ond mae triniaethau gwahanol yn datblygu a mwy yn goroesi oherwydd y gwaith ymchwil ar hyn o byd.

**Ydach chi wedi bod yn ymarfer?**
**Guto**: Do, rydym ni yn trio ymarfer gyda'n gilydd, ond oherwydd pwysau gwaith nid yw'n bosib i ni ymarfer gyda'n gilydd drwy'r amser.

**Ydach chi'n barod at y ras?**
**Phil**: Ar hyn o bryd mae 6 wythnos i fynd, mae'n anodd cael amser i ymarfer ond mae'r teulu yn gefnogol yn gadael i mi fynd i ymarfer, ymuno efo fi neu yn fy nghyfarfod ganol ffordd i lenwi fy mhotel ddiod, dod a geliau egni a byddant yn dod i gefnogi yn Llundain. Rwyf yn teimlo'n ffyddiog am y daith ac yn edrych ymlaen am dywydd da.

Pob Lwc!

**Dyma'r dolenni ar gyfer cyfrannu**
www.justgiving.com/fundraising/guto-lloyd-davies
fundraise.cancerresearchuk.org/page/phils-giving-page-78

## Bara Caws yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst a'r Cylch

Dyma wybodaeth/amserlen parthed cynhyrchiadau Theatr Bara Caws yn yr Eisteddfod eleni – 'Costa Byw' a 'Gair o Gariad'.
Bu 'Costa Byw' gan Mari Elen Jones, Mared Llywelyn Williams a Llyr Titus (Cwmni Tebot) ar daith o amgylch y Gogledd yn unig ym mis Mawrth/Ebrill eleni a chafwyd ymateb gwych i'r ddrama. Mi gaiff trigolion y de rŵan hefyd gyfle (os byddant yn dod i'r Eisteddfod) i weld y ddrama yng Nghanolfan Gymunedol Llanrwst o Nos Lun 5ed o Awst – Nos Wener 9fed o Awst (2.00 ac 8.00 yr hwyr ar y Nos Lun ac yna bob prynhawn (dim prynhawn Iau) ac mi gaiff pawb gyfle hefyd i fynd i weld 'Gair o Gariad' (sioe a fu mor llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd y llynedd – gyda phob tocyn wedi gwerthu allan) o Nos Fawrth 6ed hyd at Nos Wener 9fed am 8.00 yr hwyr a matini ar y prynhawn Iau. Bydd 'Gair o Gariad' hefyd yn cael ei pherfformio yng Nghanolfan Gymunedol Llanrwst. Mae'r tocynnau rŵan ar werth i'r ddwy sioe. Cyntaf i'r felin fydd hi! Mae tocynnau i weld 'Gair o Gariad' yn gyfyngedig – dim ond 40 sydd yn medru gweld pob perfformiad.

**MEIRION DAVIES A'I GWMNI**
**01745 812400**
**Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych**
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

sir ddinbych denbighshire
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

# Egni a Lwydda



Dyma i chi lun o Sailsbury Place yn Stryd y Dyffryn, hen gartref yr enwog Dr.Evan Pierce. Dymchwelwyd y plas ym 1953, 66 o flynyddoedd yn ôl, ac yn y cyfamser bu llawer o fusnesau ar y safle cyn codi'r archfarchnad bresennol, Lidl, yno. Gyferbyn, mae'r gofeb i'r hen feddyg (1808-1895), mae'n dal i gadw llygad barcud ar bopeth sy'n mynd ymlaen.

Mae gen i gof o deulu Bertie Hudson Jones (Tubby'r Postmon) a'i deulu niferus yn byw yn y rhan ogleddol o'r adeilad – hyn o achos y prinder tai yn y dref yn dilyn yr Ail Ryfel Byd – ac, ar yr un pryd, cangen leol Ambiwlans Sant Ioan yn y rhan arall.

Berwyn Roberts ddaeth o hyd i'r llyn hwn wrth iddo glirio cynnwys cartref y diweddar Mair a Mathonwy Hughes, ychydig ffordd i fyny'r allt.

Gan fod cymaint wedi ei ysgrifennu am fywyd a gyrfa y Dr. Evan Pierce, a rhag eich blino gydag ail adroddiadau, mi benderfynais restru nifer o ffeithiau fu'n gysylltiedig â Salisbury Place a'r hen feddyg, ffeithiau nad ydynt efallai yn gwbl gyfarwydd i rai ohonoch.

Y grêd gyffredinol yw ei fod wedi ei eni yn Y Bryn, Prion, cyn synud gyda'i deulu i Blas Meifod, Henllan. Dywedodd y diweddar R.E. (Bob) Rowlands, oedd yn byw yno flynyddoedd yn ddiweddarach, ei fod yn cofio'r ystafell ble'r oedd syrjeri y doctor wedi iddo sefydlu ei bractis cyntaf yno.

Adeiladwyd Salisbury Place ar safle cyn blasdy John, Barwm de Blaquire. Gadawodd ef y dref ym 1806 ac fe'i prynwyd wedyn gan y Dr. Pierce oddi wrth y Parch Syr Charles Salisbury – aeth yntau i fyw i Sir Fynwy. Fe briododd ei ferch hynaf gyda'r Is Iarll Kirkwall o Blas Llewenni. Mae 'na sôn fod y Dr. Pierce unnwaith wedi marchogaeth i fyny grisiau Llewenni ar ei geffyl!

Sefydlodd y Doctor ei bractis cyntaf yn Ninbych yn y flwyddyn 1833 yn Clwydian House ar Stryd y Dyffryn. Ychydig flynyddoedd wedyn dyma lle ymgartrefodd Charles Cottom, sefydlydd papur y Free Press. Mae Ianto Powell yno erbyn heddiw.

Yn ystod ei fywyd hir a dylanwadol yn y dre, fe ddaliodd yr hen feddyg nifer o swyddi gwirfoddol. Etholwyd ef gyntaf i Gyngor Bwrdeisdref Dinbych ym 1843. Ym mis Tachwedd 1865 fe'i penodwyd yn Henadur ac yr oedd yn aelod o'r Cyngor am 52 o flynyddoedd – record go sylweddol ddywedwn i. Rhwng 1866 a 1870 ef oedd y Maer. Yr oedd hefyd yn Ynad Heddwch, Capten y Frigâd Dân ac yn swyddog meddygol Cymdeithadau Fforestwyr ynghyd â'r Oddfellows. Yn amlwg, yr oedd trigolion Rhuthun yn ei edmygu achos fe'i penodwyd yn swyddog meddygol tloty'r dref honno ac fe ddaliodd y swydd am bum mlynedd ar hugain.

Hefyd, fe gyflwynodd i'r dref nifer o eitemau defnyddiol gan gynnwys cloc i'r Neuadd Sirol, dwy ffownten yfed – un o flaen y Neuadd Sirol a'r llall o flaen Salisbury Place, a chafn dŵr i geffylau ar y sgwâr.

Trwy'i fywyd, ac yn dilyn esiampl ei fam, yr oedd yn gefnogol i'r achos Wesleaidd, ac yn mwynhau gwasanaethau yng Nghapel Pendref. Ym 1878, sioc fawr iddo oedd cael ei wahardd rhag derbyn cymun am ei fod yn arfer defnyddio iaith anweddus! Cyhuddiad arall a wnaed yn eu erbyn oedd ei fod weithiau, pan fyddai'r bregeth yn hir, yn rhoi arwydd ddirgel i'w was oedd yn sefyll yn y cyntedd, i'w nôl i weld claf honedig yn y dref, oedd angen sylw.

Serch hynny, yr oedd yn gefnogol iawn i'r Ysgol Sul ac ar ddiwedd ei dymor fel Maer, fe dalodd £300, swm sylweddol bryd hynny, am barti i ddisgyblion Ysgolion Sul y dref.

Yr oedd yn flaenllaw hefyd yn y penderfyniad i sefydlu Capel Salem ar Ffordd Rhuthun fel cangen i Gapel Pendref.

Swydd bwysig iawn oedd cael ei benodi'n Grwner ym 1848. Ef felly oedd yn gyfrifol am lywyddu'r cwest ar ddamwain rheilffordd yr Irish Mail, pan losgwyd 33 o deithwyr i farwolaeth. Bu cryn dipyn o feirniadaeth ar drefn y cwest gan Yr Arglwydd Fakenham newydd a gollodd ei dad yn y drasiedi, ond bu amddiffyniad papurau dyddiol Y Times a'r Telegraph yn gefnogol iawn i'r Crwner.

Cyfnod pwysig iawn ym mywyd y Dr. Pierce oedd amser Y Geri Farwol – Y Colera. Dyma fel yr ysgrifennodd Daniel Jones, Parc y Twll am y digwyddiad, "Ond yn yr heol hon a elwir Stryd Henllan, ac oddi amgylch i'r tŷ yr oeddwn i'n preswylio y pryd hynny y gwnaeth yr haint achryslon y galanastra mwyaf a thorrodd i lawr mewn ychydig ddyddiau tros bymtheg a'r hugain o eneidiau i'r byd tragwyddol yn yr heol hon yn unig! Pump o gyrff meirw yn mynd o'r un ty, sef gŵr a gwraig a phlentyn a dau oedd yn lletya yno a phedwar o dŷ agos arall sef y wraig a thri o'r plant."

'Does wybod faint o berygl yr oedd y meddyg ifanc yn gorfod ei wynebu yn ddyddiol wrth dendio ar y cleifion.

Mae nifer o gyfeiriadau eraill am ei fywyd diddorol. Er enghraifft, ef oedd yn gofalu am Elizabeth Parri pan anwyd ei phlentyn, John Rowlands (H.M. Stanley). Y stori yw ei fod wedi adrodd barddoniaeth Gymraeg yn ystod yr enedigaeth, a'i fod, wrth ymadel, wedi cyflwyno sofren aur i'r babi.

Soniwyd hefyd fod y teulu brenhinol wedi gofyn iddo gymeradwyo nyrs i wasanaethu un o'r teulu. Ei ddewis ef oedd un, Mrs Jones o bentref Llanfairtalhaearn. Yr oedd yn hen, hen fodryb i'r diweddar Llewelyn Lloyd, mab i'r diweddar R.H. Lloyd, cyn Bost Feistr y dref. Ar ddiwedd ei hoes, prynwyd bwthyn iddi gan y Frenhines Victoria ym mhentref Pensarn, Abergele.

Cyfaill agos i'r Dr. Pierce oedd David Griffith (Clwydfardd) o Ddinbych, yr Archdderwydd cyntaf. Eraill o blith y beirdd oedd Glanmor, Ehedydd Iâl, Caledfryn, Talhaiarn a Bardd Nantglyn. Trwy ei fywyd, fe amlygodd ei ddiddordeb yn 'y pethau' ac yr oedd yn bleser arbennig ganddo wahodd ei gyfeillion barddol i Salisbury Place. Clwydfardd ei hunan gyfansoddodd yr englyn ar ei fedd –

Ei enw annwyl eneiniwn – o'i ddigoll
Ddawn feddygol barchwn;
Yma'n hir ger y maen hwn,
Ei lwch a'n dagrau wlychwn.

Mae hanes y gofeb gyferbyn â Salisbury Place yn ddiddorol. Y bwriad gwreiddiol ganddo oedd sefydlu ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth i fechgyn y dref oedd wedi amlygu eu hunain yn yr Ysgolion Sul lleol. Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus, fe'i perswadiwyd i gefnu ar y syniad ac i gefnogi'r bwriad o godi cofadail iddo fo ei hunan. Y pensaer oedd Martin Underwood a'r adeiladwr oedd John Rhydwen Jones, Y Rhyl. Defnyddiwyd cerrig o'r chwarel galch yn Y Graig, Dinbych. Uchder yr obelisc oedd 75 troedfedd gyda'r cerflun o farmor gwyn o Sisili. Bu cost y fenter dros ddwy fil o bunnoedd, anferth o swm ar y pryd. Yn dilyn y seremoni o osod y garreg sylfaen, cynhaliwyd gwledd yn y Neuadd Sirol gydag arddangosfa o dân gwyllt i ddilyn. Gyda llaw, nis gwn i am unrhyw gofeb arall a godwyd yn ystod bywyd y gŵr arbennig yma.

Yn y flwyddyn 1887, pan yn 79 oed, er mawr syndod i bawb, fe briododd gyda hen ferch o'r enw Miss Althea Brandon. Daeth ag etifeddiaeth o £10,000 gyda hi. Tybed oedd angen arian arno?

Y flwyddyn ganlynol, wedi iddo wella o glefyd difrifol, fe adeilaodd Llys Meddyg (cartref nyrsio erbyn heddiw) ar gost o fil o bunnoedd, i fod yn fans i'r gweinidog Wesle lleol. Dyma, ymhen amser, gartref y telynor enwog Osian Elis pan oedd ei dad, Y Parch. T.G. Elis yn gwasanaethu yma, hefyd y llenor, y Parch. Tegla Davies.

Tair blynedd wedyn fe arianodd y Neuadd Goffa (£2000), Theatr Twm o'r Nant heddiw, er cof am ei fam. Yr ymddiriedolwyr cyntaf oedd Alice a Susanna Price, ei nithod.

Yn ystod ei fywyd, mae tystiolaeth ei fod yn berchen ar sawl eiddo yn y dref – tafarn y King's Arms; rhes o fythynod gyferbyn â Salisbury Place, a dynnwyd i lawr i wneud lle i'r ardd a'r gofeb; teras o'r enw Prince Arthur's Terrace, rhywle yn Stryd Henllan, does dim tystiolaeth o gwbl gen i i ddangos ei lleoliad; tri chae o bum erw gerllaw a dau gae o ddeg erw yn Lon Llywelyn.

Mae gen i lythyr gwreiddiol yn fy meddiant gan Clough a'i gwmni, at Dr.Pierce, dyddiedig Ebrill 1887, yn cadarnhau eu bod wedi troi un Thomas Ffoulkes, 52 Stryd y Dyffryn allan o'r gartref a gwerthu'r tŷ a'r cynnwys fel ei fod yn gallu talu dyled o £125 i'r meddyg.

Yn ei ewyllys o 11 tudalen, mae'n gadael Salisbury Place, y cynnwys ac yn y blaen i'w weddw gyda chaniatad i'w nithod fyw yno am weddil eu hoes am rent o £10 y flwyddyn. Hefyd, gadawodd fân symiau i'w weision – rhwng £5 a £25 yr un, taliad o £5 y flwyddyn i gapeli Wesla Llandyrnog, Llanelwy a Bodfari, a £1 y flwyddyn i'r côr a'r Ysgol Sul yng Nghapel Salem.

Yn dilyn ei farwolaeth, a hyn wedi iddo ddioddef am gyfnod o bedair blynedd, yn ôl ei ddymuniad personol, rhoddwyd ei gorff, wedi ei wisgo mewn siwt o ddillad crand, i orwedd yn ei arch. Yna yn ystod yr wythnos ganlynol gwahoddwyd unrhyw un oedd yn dymuno ymweld â Salisbury Place i dalu'r deyrnged olaf iddo. Rhaid bod cannoedd ar gannoedd wedi manteisio ar y cyfle i wneud hyn.

Claddwyd ef ym mynwent yr Eglwys Wen am 3 o'r gloch y prynhawn, Dydd Iau, 22ain o Fawrth, 1895. Yr oedd pob siop a busnes yn y dref ar gau a thyrfa anferth wedi ymgasglu ar hyd Stryd y Dyffryn a'r strydoedd cyfagos.

Yn dilyn gwasanaeth byr yn y tŷ, aeth y cynhebrwng, oedd yn cynnwys 34 o gerbydau, heb sôn am y rheini oedd ar droed, am y fynwent. Roedd yr osgordd yn ymestyn o Salisbury Place i drofa Ffordd Eglwys Wen. 'Dyw gofod ddim yn caniatàu enwi unigolion, ond yr oedd cynrychiolaeth o bob haen o gymdeithas Cymru yno. Hefyd, bob ochr i'r ffordd, yr oedd cannoedd o aelodau'r cyhoedd yn awyddus i dalu'r gymwynas olaf iddo.

Trefnwyd y gweithrediadau gan yr ymgymerwr lleol, T.R. Hughes; Rheithor Dinbych, y Parch J. Morgan gyda chymorth y Curad, y Parch. E.J. Davies oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth. Côr Capel Pendref arweiniodd y canu. Ar ddiwedd y seremoni, claddwyd y corff yn y gladdgell deuluol.

Gyda'r nos, cynhaliwyd gwasanaeth coffa yn y Neuadd Goffa gyda'r Parch Hugh Jones, Cadeirydd y Gylchdaith Wesleaidd yn arwain.

Mae sut gymaint y gall rhywun ysgrifennu am yr hen feddyg, ond eto, prinder gofod yw'r broblem.

RM (Bobi) Owen

Morgeisi
CARTREF
Mortgages
**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio

Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol

Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

cyngor sir ddinbych
Cynghorydd
**Mark John Young**
Dinbych Isaf - Annibynnol
C/O 13 Stryd y Dyffryn, Dinbych
E:mark.young@denbighshire.gov.uk
F:01745 814864 S:07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

## Modfeddi Meddygol

Teithio Dramor

Mae ymweld â gwledydd pell y byd yn un o bleserau mwyaf bywyd, a diolch i ddiwydiant awyrennau rhyfeddol yr oes yma, mae unrhyw le o fewn ein cyrraedd ni ymhen ychydig oriau. Mae teithio bellach yn rhan o addysg i lawer, gyda myfyrwyr yn aml iawn yn cymryd 'blwyddyn allan' i weld y byd cyn cychwyn ar eu gyrfa. Mi fedra i ddychmygu ymateb fy nhad pe bawn i wedi datgan 'mod i am wneud hynny ar ôl gorffen fy nghwrs gradd yn Lerpwl – ro'n i'n sefyll fy arholiad olaf ar y dydd Gwener ac yn cychwyn gweithio fore Sadwrn, a welais i ddim golau dydd am y chwarter canrif nesaf! Tydi'r oes wedi newid?

Un peth sy'n hollbwysig, yn ogystal â gofalu bod eich pasbort yn ddilys, bod gennych chi'r arian tramor cywir a'ch cerdyn teithio yn eich llaw, yw sicrhau eich bod yn amddiffyn eich corff yn erbyn heintiau sy'n ddiarth i ni yma yng Nghymru fach. Mae 'na lu o wahanol heintiau yn eich disgwyl ledled y byd, a chan nad ydym ni wedi dod ar eu traws o'r blaen, does gennym ni ddim imiwnedd cynhenid yn eu herbyn.

Enghraifft o hyn yw'r gynddaredd (rabies), sef haint difrifol y gellir ei ddal ar ôl cael eich brathu neu'ch cripio gan anifail sydd wedi ei heintio. Does yna ddim achos o'r gynddaredd wedi bod yng Ngwledydd Prydain ers y nesaf peth i ganrif, ond mae yna berygl uchel ohono o hyd mewn gwledydd cyn agosed â Thwrci a Tunisia, sy'n wledydd poblogaidd iawn am wyliau i filoedd o bobl o'r wlad yma. Fe all haint fel yma eich lladd.

Mae rhai o'r brechiadau y byddwch chi eu hangen i deithio dramor ar gael fel rhan o'r brechiadau plentyndod sy'n rhan o'r strategaeth iechyd, sef diptheria, polio a thetanws, ond yn aml bydd angen pigiad atgyfnerthol o'r rhain cyn mynd dramor. Y brechiadau sy'n cael eu rhoi amlaf i deithwyr tramor yw teiffoid, hepatitis A a colera, ond mae nifer o frechiadau eraill ar gael, er enghraifft hebatitis B, enseffalitis, llid yr ymennydd, y gynddaredd, tiwbercwlosis a'r dwymyn felen, yn ogystal â thabledi malaria. Mae'n hanfodol bwysig eich bod yn cael y brechiadau bywir, gan y gallai'r awdurdodau wrthod eich gadadel i mewn i'w gwlad heb dystiolaeth eich bod wedi eich brechu.

Felly, ar ôl penderfynu ar leoliad eich taith nesaf, ac o leia wyth wythnos cyn y dyddiad teithio, ewch i geisio cyngor meddygol am yr ardal a'i heintiau. Yn aml iawn, mi fydd y cwmni teithio yn eich rhoi ar ben ffordd, gan argymell y brechiadau addas i'r wlad honno, ond i gael rhagor o wybodaeth, mae gennym ni bellach dri arbennigwr sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn y maes yma, sef Gwenno, Steffan a Llŷr.

Mae hyn yn golygu y gallwn ni bellach gynnig gwasanaeth brechiadau tramor arbenigol yn ein fferyllfeydd. Fe allwch chi wneud apwyntiad i weld un o'r tri fferyllydd yma i drafod y canlynol :

Pa wledydd rydych chi'n bwriadu ymweld â nhw

Pa adeg o'r flwyddyn y byddwch chi yno (mae mwy o fygythiad yn nhymor y glawogydd er enghraifft)

Lle byddwch chi'n aros (mae yna lai o fygythiad mwn gwesty yng nghanol dinas nag sydd yna mewn pabell mewn ardal wledig)

Am faint o amser y byddwch chi'n aros yna (po hiraf y byddwch chi'n aros, y mwyaf o berygl sydd yna)

Eich oedran a'ch iechyd cyffredinol yno (os ydych chi'n mynd i weithio mewn maes meddygol neu ofal neu'n ymwneud ag anifeiliaid, rydych chi'n llawer mwy tebygol o ddod ar draws yr heintiau).

Arôl cael atebion i'r cwestiynau hyn, fe allwn ni ddweud yn union pa frechiadau y byddwch chi eu hangen i'ch amddiffyn rhag salwch ar eich gwyliau ac, yn fwy na hynny, fe allwn ni roi'r brechiadau i chi.

Mae'r heintiau yma yn wirioneddol beryglus, felly fedra i ddim pwysleisio digon pa mor angenrheidiol ydi cael y brechiadau priodol yn brydlon er mwyn cael mwynhau'r profiad o deithio'r gwledydd hudolus yma heb orfod poeni am y posibilrwydd o salwch parhaol wedi dychwelyd adref.

*Diolch o galon unwaith eto i Emyr Wyn Evans am ei ganiatad i gynnwys yr erthygl hon yn y Bigwn*

## Hoffwn gymryd y cyfle yma i gyflwyno fy hun fel Comisiynydd newydd y Gymraeg.

Mi ddechreuais i yn y swydd ar 1 Ebrill eleni. Fy nod i a'r tîm o swyddogion sy'n gweithio efo fi ydy cynyddu'r cyfleoedd sydd gennych chi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd. Rydyn ni wedi ein lleoli mewn pedair swyddfa; yng Nghaernarfon, Caerdydd, Caerfyrddin a Rhuthun.

Er mwyn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl ac er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael effaith wirioneddol ar lawr gwlad, mi fyddwn yn gosod blaenoriaethau. Dyma lle rydw i angen eich help chi.

Rydw i'n dŵad yn wreiddiol o Rosllannerchrugog ger Wrecsam, ac yn dal i fyw yn y pentref gyda ngwraig Llinos. Mae gen i ddarlun clir o beth ydi'r cyfleoedd a'r heriau i ddefnyddio'r Gymraeg yn fy ardal i, ond rydw i angen gwybod sut mae pethau ym mhob rhan o Gymru. Oes yna ddigon o gyfleoedd i chi neu'ch plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol? Ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau? Pa mor hawdd neu anodd ydy defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn eich ardal chi? Oes yna unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith? Beth ydych chi'n credu dylai Comisiynydd y Gymraeg fod yn ei wneud i wella'ch profiad chi o ddefnyddio'r Gymraeg?

Byddwn yn ddiolchgar tu hwnt os gallwch gysylltu â mi gyda'ch sylwadau. Gallwch wneud hynny drwy e-bostio post@comisiynyddygymraeg.cymru neu ysgrifennu ataf i Comisiynydd y Gymraeg, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT.

Yn gywir,

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"



# Pryd A Hanner



Pan ddaeth y pwt yma drwy'r post, bu bron imi â chyfogi wrth ei ddarllen. Be' fyddai wedi digwydd pe bawn i weld mentro dilyn y cyfarwyddiada' a mynd ati wedyn i gladdu'r gymysgfa? Duw â ŵyr!
Ond mewn cyfnodau o gynni, byddech yn fwy na pharod i wneud a pharatoi unrhyw beth i fwydo a chynnal y teulu mae'n debyg.

Pryd o Draed a Chlustiau Mochyn
Glanhewch a mwydwch y traed a'r clustiau a'u berwi mewn dŵr am rhyw dair awr neu well, nes y byddant yn dyner. Holltwch y traed yn ddwy, tynnwch yr esgyrn allan a'u gadael wedyn i oeri rhwng dwy ddysgl. Torrwch y clustiau yn dameidiau hirgul, hanner modfedd o led. Yna, toddwch ddwy owns o fenyn ffres a'i gymysgu â llond llwy de o flawd.
Torrwch ddau nionyn, heb fod yn rhy fawr, yn weddol fân, a'u stiwio yn y gymysgedd nes eu bod yn dyner. Yna, ychwanegwch y clustiau, a phan mae'n nhw'n hollol boeth, rhowch lond llwy de o fwstad drostynt a'u cymysgu'n dda, cyn rhoi'r cwbwl ar ddysgl boeth a'u cadw mewn lle cynnes. Trochwch y traed mewn menyn wedi ei ddowcio mewn briwsion bara wedi eu sesno cyn eu briwlio (coginio) ar y tân am rhyw ddeng munud. Yna, rhowch nhw ar y ddysgl gyda'r clustiau a gweddill y cymysgedd. Mwynhewch!!

G.M.

# Dwy Chwarel

'Chydig yn ol, aeth Ôl a finna ar daith i Oban, tref fach eithriadol o hyfryd yn Lorn yng ngogledd orllewin yr Alban – anrheg gan y genod 'ma. Wrth drefnu taith o'r fath, mae popeth yn dibynnu ar y tywydd, a bois bach, allen ni ddim fod wedi amseru pethau'n well. Roedd y golygefydd yn anhygoel, lliwiau'r gwanwyn ar eu gorau a'r môr fel llyn llefrith.
Un diwrnod, trefnwyd taith i Ynys Seil, ac i'w chyrraedd, roedd yn rhaid croesi pont garreg anferth a gynlluniwyd gan Stevenson - Pont Clachan neu Pont Môr Iwerydd. Pen draw'r siwrnai oedd pentre bach o'r enw Ellenabeich, pentre o dyddynod bach gwyngalchog, ar lan y môr, a godwyd yn gartrefi i chwarelwyr a'u teuluoedd yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyfnod o ddioddef ac o gyni. Yn annisgwyl, 'chydig iawn o ôl y cyfnod hwnnw oedd i'w weld, roedd y rwbel wedi ei wasgaru yn hytrach na'i adael yn domennydd.
Roedd amgueddfa fach yno – atynfa ddifyr iawn a chasgliad o greiriau o'r cyfnod pan oedd y chwareli yn eu hanterth. Roedd gŵr bach sgwrslyd yn cadw llygad ar bethau, a phan ddeallodd ein bod ni'n dod o Gymru, fe agorodd y drysau a dyma ddechrau holi a phrygywthian, ac yn ystod y sgwrsio deuthom i ddeall fod 'na gysylltiad agos iawn wedi bod rhwng yr ardal â'r chwareli ym Mlaenau Ffestiniog (chwarel yr Oakley yn arbennig) cyfnod pan oeddynt yn mewnforio peth wmbredd o lechi chwareli'r Blaenau cyn eu danfon i'r trefi a'r dinasoedd ym mhob rhan o'r Alban – trefniant od a dweud y lleiaf.
Roedd y chwarel yn Ellenabeich yn llythrennol ar lan y môr, a dim rhyngddi â'r Iwerydd ond rhyw silff neu ymyl go sylweddol oedd wedi ei gweithio o'r graig ac yn gylch o rhyw gan medr. "Cododd cythral o storm", (disgrifiad y curad, nid fi) rhyw noson,a bylchwyd y graig. Llifodd y môr i mewn a boddwyd y chwarel – wrth lwc doedd na neb yn gweithio ynddi ar y pryd. Bu'n 'sgytfa ac yn drychineb i sawl cenhedlaeth a diflannodd ffordd o fyw megis dros nos.
A heddiw, lle bu diwydrwydd cymdeithas glos, y mae'r hanes i'w weld ac i'w deimlo yn y bythynod bach gwyngalchog,ac yn y pwll tri chan troedfedd o ddyfnder, lle bu'r chwarel. Rhwng 1842 ac 1861 pan oedd y gwaith yn ei anterth, cynhyrchwyd 130,000,000 o lechi a'u gwerthu am bris o rhwng £1.00 a £2.00 y fil.




**Hysbysebion**

| | |
|---|---|
| 4cm x 4cm | £3.00 |
| 9cm x 4cm | £6.00 |
| 9cm x 7cm | £10.00 |
| ¼ tudalen | £15.00 |
| ½ tudalen | £25.00 |
| Tudalen Llawn | £50.00 |

# Coleg Bala

Mae hanes Coleg Bala yn mynd nôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ym 1847 sefydlwyd ysgol gan David Charles, Caerfyrddin a Lewis Edwards, Ceredigion ar gyfer paratoi rhai oedd a'u bryd ar fynd i'r weinidogaeth, gyda enwad cymharol newydd, sef y Methodistiaid Calfinaidd.

Un o emynau David Charles yn Caneuon Ffydd (64) yn cychwyn gyda'r cwpled;

*Tydi sy deilwng oll o'm cân, fy Nghrewr mawr a'm Duw.*

Un o emynau Lewis Edwards yn Caneuon Ffydd (66) yw ei gyfieithiad o emyn William Cowper. Mae'r emyn yn cychwyn gyda'r cwpled;

*Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr yn dwyn ei waith i ben.*

Wrth ymweld â'r Coleg heddiw, un o'r pethau cyntaf sy'n dwyn eich sylw yw cofgolofn pur fawr o Lewis Edwards, yn edrych i lawr ar bawb sy'n cyrraedd.

Bu'r coleg yn fan cychwyn i lawer iawn o rai oedd a'u bryd ar fynd i'r weinidogaeth, hyd at hanner cyntaf yr ugenifed ganrif.

Ym 1967, wedi i'r adeilad fod yn wag am rai blynyddoedd, fe'i agorwyd eto ond y tro hwn i sŵn plant ac ieuenctid.

Gweledigaeth y Parch Dafydd Owen, a'i wraig Brenda, oedd y fenter newydd. Y bwriad oedd rhoi cyfle i'r genhedlaeth iau i fwynhau amser gyda'i gilydd a chael clywed neges yr Efengyl mewn modd mwy anffurfiol.

Wedi rhai blynyddoedd wrth y gwaith symudodd y Parch Dafydd Owen ymlaen i swyddi eraill cyfrifol o fewn yr enwad Presbyteraidd.

Cymerodd nifer o rai eraill afael ar yr awenau, a heddiw mae'r gwaith dan ofal Sian Edwards a'i gŵr Owain,



sydd hefyd yn feddyg teulu yn y Bala.

Cafodd 16 ohonom, sef aelodau Aelwyd Capel Mawr, Dinbych a rhai ffrindiau gyfle i ymweld â'r Coleg ddydd Mawrth, Mehefin 11eg. Wedi croeso cynnes, yn cynnwys paned a sgon, cawsom sgwrs gan Sian, yn cynnwys lluniau ar y sgrîn, yn disgrifio'r gwaith gyda phlant a ieuenctid.

Mae llawer o eglwysi trwy Gymru yn mynychu'r Coleg yn flynyddol. Mae plant o'r ysgolion o fewn dalgylch Bala yn cael cyfle i dreulio penwythnos, yn cael hwyl a sbri a hefyd cyfle i glywed y neges am Iesu.

Yr hyn sydd yn galonogol iawn am y gwaith yw fod nifer o'r rhai ddaeth yno pan yn ifanc yn dod yn ôl fel swyddogion, hynny yn yr hyn a elwir yn flwyddyn gap. Cawsom gyfle i gyfarfod tair sydd yn y swyddi hynny a'u clywed yn disgrifio'r profiad.

Yn ychwanegol i hynny, mae rhai sydd wedi treulio blwyddyn neu ddwy fel swyddogion bellach wedi symud ymlaen i fod yn weinidogion neu yn arweinwyr mewn sefyllfaoedd Cristnogol.


Yn dilyn y sgwrs cafwyd ginio dydd Sul(!) blasus. Wedi'r cinio buom yn crwydro ystafelloedd y Coleg yn gweld pa fath o adnoddau oedd ar gael ar gyfer amser hamdden. Cawsom gyfle hefyd i gyfarfod rhai sy'n gyfrifol am waith y swyddfa a gofal dros yr adeiladau.

Roedd yr ymweliad yn agoriad llygad ac yn ysbrydoliaeth inni. Yn enwedig gweld lluniau o nifer fawr o blant yn mwynhau eu hunain mewn awyrgylch Gristnogol.

Mae geiriau'r ddau emyn uchod yn cael eu gwireddu heddiw mewn gwaith sy'n digwydd yn y Coleg yn y Bala.

Tom Williams






**CAPEL BRWCWS**
**YR ADEILAD YN 150**
**1869-2019**
**GWASANAETH ARBENNIG Y DATHLU**
**YN Y CAPEL**

**PRYNHAWN SUL, GORFFENNAF 14EG AM 2**
**DAN ARWEINIAD Y GWEINIDOG Y PARCH. DDOCTOR ANDRAS IAGO**




**HEFO TE Y DATHLU YN DILYN YM MELIN BRWCWS AM 3.30**
**CROESO CYNNES I GYN-AELODAU A RHAI HEFO CYSYLLTIADAU HEFO'R CAPEL**
**OHERWYDD RHEOLAU IECHYD A DIOGELWCH O RAN FAINT A GANIATEIR YN Y CAPEL AR UN WAITH**
**AC ER MWYN ARCHEBU DIGON O FWYD!**
**CYSYLLTER HEFO'CH ENWAU OS GWELWCH YN DDA:**
**CAROLYN J THOMAS – YSGRIFENNYDD YR EGLWYS – 01745 814340**
**NEU**
**E DILWYN JONES – TRYSORYDD – 01745 813195**

# Cornel y Plant

Cylchair: Cofiwch fod llythyren olaf un gair yn ddechrau i'r gair sy'n dilyn e.e. platatwsiopys. Cofiwch hefyd mai un llythyren ydi ch, dd, ff a.a.
Man cychwyn.

Adeilad tal a golau ar ei ben
Darn o dir a'r mor o'i gwmpas
Rydych chi'n gwneud hyn ar eich traed
Maae hon yn helpu i fwyta cawl neu bwdin
Yn hon y byddwch yn cael gwersi
Ffrwyth sur, sur
Mae hon yn llithro mynd ar ei bol
Y bos mewn gem rygbi neu bel droed
Hanner cyntaf _ _ _ _-ogam
Croes i 'dod'
Mwy nag un llaw
Dafad ifanc
Afon fechan
Rydych chi'n sychu eich hun hefo hwn
Ffordd fach gul

Mae'r atebion ar dudalen 4




PEN-RHYWBETH-NEU'I-GILYDD :
Ceisiwch orffen pob un o'r geiriau hyn sy'n dechrau gyda 'PEN'.
Nifer o dai gyda'i gilydd PEN_ _ _F
Darn bach o farddoniaeth PEN_ _LL
Mae pobl mewn oed yn eu gael i brynu pethau PEN_ _ _N
Defnyddiwn hon i 'sgrifennu neu dynnu llun PEN_ _L
Arweinydd neu rywun pwysig PEN_ _ _TH
Gwneud eich meddwl i fyny PEN_ _ _ _ _ _U
Un bach y llyffant PEN_ _L
Mae llun hwn ar faner y mor-ladron PEN_ _ _G
Math o bysgod PEN_ _ _G
Mae'n mynd o ochr i chr mewn cloc PEN_ _L

Mae'r atebion ar dudalen 20

Beth am liwio hwn



Dyma i chi Wali'r parot, a dwi'n siwr y byddai 'chydig o liw yn dod a gwen i'w wyneb o. Ar ol i chi orffen, gyrrwch y llun at y golygydd ac fe fydd 'na wobr hael i'r ymgais orau. Pob lwc i chi.

# Dathlu 175 Mlynedd o Griced yn y Dref

Cynhaliwyd cinio mawreddog ar nos Sadwrn, Mehefin 8fed, er mwyn dathlu sefydlu'r clwb criced lleol 175 mlynedd yn ôl.

Yn briodol iawn, pabell enfawr ar faes hyfryd y clwb ar Ffordd Ystrad oedd lleoliad y dathliad, ac- (am unwaith!) - ynghanol cyfnod o dywydd garw,tywynnodd yr haul.

Daeth rhyw 170 o bobl ynghŷd ar gyfer yr achlysur gan gynnwys y Maer a'r Faeres, cynrychiolwyr o wahanol fudiadau yn Nyffryn Clwyd, cyn-chwaraewyr ac aelodau presennol o'r clwb a'u teuluoedd.

Hefyd yn bresennol roedd dau ŵr ifanc o Awstralia a ddisgleiriodd i Ddinbych yn ystod y degawd diwethaf.

Bu Gwyn Evans ac Edward Lloyd, dau gyn-chwaraewr, yn tyrchu yn ddiweddar yn yr archifdy yn Rhuthun am hanes y clwb ers ei ddyddiau cynnar, a chyflwynwyd ffrwyth eu llafur gan Gwyn, y cadeirydd presennol, mewn modd diddorol a dadlennol.

Gyda'r clwb yn un o'r rhai hynaf yng Nghymru, roedd digonedd o hanesion i'w hadrodd. Cafwyd awgrym o hynny yn **Y Bigwn** yn ystod y misoedd diwethaf.

Yna tro Bobi Owen oedd hi. Yn ei ffordd unigyw adroddodd yntau hanesion am y cyfnod pan oedd o'n chwarae i'r clwb yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Safodd y gynulleidfa fel un gŵr i gymeradwyo'i araith.

Wrth gloi'r noson cyfeiriodd Gwyn Evans at y ddau dîm hŷn llewyrchus,yr adran iau lwyddiannus a'r her fawr sydd yn wynebu'r clwb.

Er mwyn cynnal ei statws, meddai, roedd yn rhaid i Ddinbych sicrhau bwrdd sgorio electroneg costus ac atgyweirio'r wiced bob tywydd ar gyfer yr adran iau.

Dyma'r her fawr a wynebai'r clwb, meddai.

Paratowyd yr arlwyaeth gan Westy'r Brwcws a chafwyd adloniant gan fand lleol.

## Dathlu Dinbych 175

Yn rhifyn Hydref 1994 o'r **Bigwn** ymddangosodd yr erthygl isod pan oedd y clwb yn 150 mlwydd oed. Y mae ambell un a enwir yn yr erthygl honno yn dal i chwarae'n achlysurol i'r clwb – chwarter canrif yn ddiweddarach!

Mae'r "Bigwn" yn falch iawn o'r cyfle i longyfarch Clwb Criced Dinbych ar gyrraedd ei benblwydd yn 150 oed y flwyddyn hon.

Bu ei hanes yn un diddorol dros ben ac yn un anrhydeddus iawn o'r cychwyn cyntaf yn 1844. Un o brif nodweddion o dwf a datblygiad y Clwb yw'r elfen leol gryf sydd yn gysylltiedig ag o.

**Y DYDDIAU CYNNAR**

Ychydig iawn o glybiau oedd yn bodoli yng Ngogledd Cymru yn y cyfnod cynnar hwnnw a dynodir bod Dinbych wedi cael gemau yn y 1850'au yn erbyn LLanelwy, Rhuthun, Biwmares, Llanrhaeadr, Bangor ac Ysgol Rhuthun. Yn unigryw iawn, Dinbych oedd y clwb cyntaf yng Ngogledd Cymru i gyflogi chwaraewr proffesiynnol yn y cyfnod cynnar hwnnw.

Amser hynny bu'r clwb yn chwarae ar faes ger y Parciau yng ngwaelod y dre ac yna ar faes ger fferm y Lodge yn nhop y dre.

**Y CYFNOD 1919 HYD 1945**

Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf fe symudodd y Clwb i'r maes presennol yn Ffordd Ystrad. Yr oedd y maes ar y pryd yn perthyn i Col. E.J. Swayne, Cae Derw.

Yr oedd Dinbych yn un o'r deuddeg clwb i sefydlu cynghrair Criced Gogledd Cymru yn 1923. Dim ond am 2 flynedd y parhaodd y gynghrair - pellter daearyddol y Clybiau oedd y prif reswm am hyn. Modd bynnag fe fu record chwarae y Clwb lleol yn un hynod o llwyddiannus yn y cyfnod byr hwnnw.

Un o'r cricedwyr amlycaf a medrusaf y clwb yn ystod y 20'au oedd D. E. Williams, Siop y Fron. Fel batiwr a bowliwr, yn wir, fe gafodd cynnig pendant i ymuno â Chlwb Swydd Northants.

Ymunodd D.H. Tordoff â staff yr Ysgol Ramadeg yn y 30'au cynnar ac roedd ei sgiliau ef fel cricedwr yn ddylanwad mawr ar y clwb.

**WEDI'R RHYFEL 1939-45**

Mae'n debyg mai'r cyfnod 1948-58 oedd ymysg y cyfnod mwyaf llwyddiannus yn hanes y clwb. Fe ddatblygodd y berthynas rhwng yr Ysgol Ramadeg a'r Clwb yn un broffidiol iawn gyda chricedwyr fel R.H.Evans, Phil Roberts, Ken Evans, Cecil Evans, Arthur Roberts, Granville Evans, Robert Elwy Owen, Bobby Owen, David T. Owen, Emrys Williams, Pat Richards, Brett Hodkinson, Bob Williams ac Eric Royles yn ddolen gyswllt effeithiol iawn.

Ar y pryd roedd gan y clwb ddau fowliwr cyflym iawn, y pâr agoriadol gorau yng Ngogledd Cymru - sef Huw Pritchard a Gwilym Humphries. Bu'r ddau yn cynrychioli Sir Ddinbych ar amryw o weithiau. Eraill i'w dewis i Sir Ddinbych oedd Oliver Tordoff, Robert Elwy Owen, Pat Richards, Garner Roberts, Trefor Roberts a Gordon Gough Roberts.

**Y CYFNOD DIWEDDAR**

Wedi llawer o'r hen griw ymddeol bu rhaid i'r clwb ganolbwyntio ar ddatblygu talentau ifanc. Dioch i rai fel David T. Owen a D. A. Williams, llwyddwyd i ddenu a hyfforddi cricedwyr ieuanc gyda Gwyn Evans, Iorwerth Atkinson, David Scrimshaw, Will Jones, Emyr Owen ac Emyr Thomas yn fatwyr a William Humphreys, Richard Humphreys, John Griffiths, John Gambles, Tegid Phillips, Dewi Roberts a Gareth Roberts yn fowlwyr.

Erbyn hyn y Clwb yw perchenogion y maes, sydd wedi ei ddatblygu i fod yn un o safon ddigon da i gynnal gemau Sirol.

**DYFODOL DISGLAIR**

Mae y dyfodol yn addo i fod yn un disglair yn enwedig o feddwl fod y clwb yn Canolbwyntio llawer ar roi cyfle i'r Ieuenctid.

Dymunwn pob llwyddiant i Glwb Criced Dinbych, bydded iddo barhau i chwarae ran bwysig yn mywyd hamdden a chwaraeon y Dre.

"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"

## Pwyllgor y Dysgwyr Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020

## Ocsiwn Addewidion



Annwyl Olygydd,

Gwahoddwn ddarllenwyr Y Bigwn i'r Ocsiwn Addewidion, yn nhafarn Y Plu, Rhuthun ar nos Wener, Gorffennaf 12fed am 7.30.yh.

Gosodwyd nôd i Bwyllgor y Dysgwyr, ar gyfer cynnal amrywiol weithgareddau ym mhabell y dysgwyr, ar y maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Byddwn yn ddiolchgar am gefnogaeth. Yn gywir
Elizabeth Floyd
(Trysorydd)

# Clwb Rygbi Dinbych

Ar gychwyn y Cinio Blynyddol a Noson Wobrwyo yng Ngwesty'r Oriel, Llanelwy, cafwyd cyfnod o dawelwch a llonyddwch i gofio am rai o'n plith oedd wedi ein gadael yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, sef Meurig Voyle, Tim O'Shea ac, yn fwy diweddar, Sue Phillips, gwraig Tegid.

Y gŵr gwadd eleni oedd Steve Fenwick, y canolwr disglair a enillodd 30 cap i Gymru a 4 i'r Llewod ar eu taith i Seland Newydd ym 1977. Aeth ymlaen i chwarae Rygbi'r Gynghrair yn broffesiynol i Ddreigiau Gleision Penybont/Caerdydd gan ennill dau gap i Gymru yn ystod y tymor 1981-82. Cafwyd sgwrs hynod ddifyr ganddo yn sôn am ei brofiadau fel chwaraewr i Benybont, Cymru a'r Llewod yn y dyddiau pan oedd y gêm yn un amatur.

Yn dilyn pryd o fwyd blasus, cyflwynodd y gŵr gwadd y gwobrau fel a ganlyn:

**<u>Tîm Cyntaf</u>**

Chwaraewr y Flwyddyn: Kieran Bonar

Chwaraewr y Chwaraewyr: Joe Davies

Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar: Jordan Wynne

Chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf: Joe Davies

Gwobr y Capten: Narmer El-Lamie

**<u>Ail Dîm</u>**

Chwaraewr y Flwyddyn: Ashley Liversidge

Chwaraewr y Chwaraewyr: Ashley Liversidge

Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar: Neville Hughes

Chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf: Jake Lloyd

**<u>Ieuenctid</u>**

Chwaraewr y Flwyddyn (Tlws Coffa Peter Jones): Hari Evans

Chwaraewr y Chwaraewyr: Harley Jones

Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar (Tlws Coffa Richard Jones): Gwern Pierce

Chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf: Iwan Evans

Gwobr y Capten: Rowan Hughes

**<u>Aelod y Flwyddyn</u>**

Tom Williams

Llongyfarchiadau i bawb a dderbyniodd wobr, yn ogystal â'r rhai a enwebwyd, a diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr o'r Clwb a wnaeth y noson yn un mor llwyddiannus, heb sôn am holl staff yr Oriel.

*John Davies*

# Clwb Pêl-droed Dinbych

Mae'r ymarferion cyn y tymor ar eu hanterth ar hyn o bryd gyda'r tri thîm yn cynnal sesiynau yn Central Park.

Mae tîm rheoli'r tîm cyntaf, Dewi Llion ac Owain Roberts wedi manteisio ar wasanaethau lleol yr hyfforddwr personol, Paul Edwards er mwyn rhoi prawf ar ffitrwydd y chwaraewyr. Mae chwaraewyr wrthi'n cael eu harwyddo ac mae'r Clwb yn hynod o falch o gael gymaint o chwaraewyr lleol yn eu plith gan gynnwys y capten Mark Roberts, amddiffynwyr Miles Todd, Dan Lloyd, Stuart Vernon, Les Brophy a Billy Holmes, yn ogystal â'r chwaraewyr canol cae Siôn Jones, Sam Tate a Sam Lewis a'r gôl-geidwad Stuart Griffiths.

Gwnaethpwyd gwaith ar seiliau Central Park yn ystod yr wythnosau diwethaf drwy Miles Todd a'i gwmni 360 Groundcare Ltd ac mae'r Clwb yn hynod o ddiolchgar iddo am ei wasanaeth.

O ganlyniad i hyn, mi fydd y gemau cyfeillgar a drefnwyd ar gyfer y tîm cyntaf yn cael eu chwarae oddi cartref gyda'r cyntaf ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 27ain yn erbyn Brymbo, a'r ail ychydig ddyddiau yn ddiweddarach ar Awst yr 2il yn erbyn Bae Cinmel.

Wedi i Kevin Roberts ymddiswyddo fel Rheolwr yr Ail Dîm ar ddiwedd y tymor, ynghyd â'r hyfforddwr Gareth Hughes, apwyntiwyd tîm rheoli newydd. Nick Hailes yw'r rheolwr newydd, ac yn y gorffennol bu'n rheoli'r tîm Denbigh Development cyn symud ymlaen i reoli Ail Dîm Llandyrnog am dymor. Bu'n sydyn yn apwyntio dau hyfforddwr gyda Johnny Roberts yn aros ymlaen fel hyfforddwr i'r Ail Dîm a Gethin Jones yn ymuno o hyfforddi Tîm dan 16 Academi Y Bala.

Mae hyfforddwr newydd Tîm Denbigh Development, Craig Morris a'i gynorthwyydd Dan Whitfield wedi cael ymateb ardderchog gan chwaraewyr ifanc lleol yr ardal sydd wedi bod yn mynychu'r sesiynau hyfforddi.

Wrth i'r erthygl hon fynd i'r wasg, nid yw'r Ail Dîm na thîm Development wedi cyhoeddi eu gemau cyfeillgar. Er hynny, bydd y gemau'n cael eu hysbysebu ar wefan y Clwb yn gynnar ym mis Gorffennaf ar www.denbightownfc.com

Ar yr adeg yma o'r flwyddyn, mae gwirfoddolwyr y Clwb yn paratoi ar gyfer tymor prysur arall. Os hoffwch chi helpu mewn unrhyw ffordd, boed hynny yn y gegin, gyda'r cyfryngau, yn stiwardio neu yn helpu ar y giât ar ddiwrnod gêm, cysylltwch gydag Iwan Jones ar 07788627819 neu siaradwch gydag unrhyw berson o Central Park.



Tîm Rheoli'r Ail Dîm – Nick Hailes y rheolwr (canol), Johnny Roberts, hyfforddwr (chwith), a Gethin Jones, hyfforddwr (dde)



Tîm Rheoli Denbigh Development – Craig Morris, rheolwr (dde) a Dan Whitfield ei gynorthwyydd (chwith)

# Carnifal Dinbych



Milly a Bella



Celyn,Erin ac Elsie



Summer



Filey Young



Bethan, Charlie a Holly Westwood




Dixie a Anaya Rawlingson







Mary a Medwyn
Dde- Buddugwr Efan





Chloe a Carly Lee



Gwyrfai yn gosod casgen i 'rcystadleuwyr ei rholio



Ymweliad Magi Ann



Tomos, Sue a Katie



Cyfnodi amser y cystadleuwyr



Arddangosfa torri coed - Alun,Jann, David ac Osian

## NOSON WOBRWYO YN Y CLWB RYGBI



Steve Fenwick a Tom Williams



Harley Lloyd Jones




Hari Evans




Joe Davies



Lewys Eden



Iwan Evans



**Gwirfoddolwyr *'Dinbych yn Blodeuo'* yn paratoi ar gyfer ymweliad beirniad '*Cymru yn ei Blodau'* ar Orffennaf 11.**





